ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ar gyfer y cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016 gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni.

Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion, Adran 3.5 yn nodi'r canlynol: "O *fewn 13 wythnos cyn diwedd y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymatebion (a chyn cyhoeddi'r cynigion beth bynnag) rhaid i'r cynigydd gyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad*'

Cytunodd y Cabinet i

1) Gefnogi ymrwymiad cyrff llywodraethu Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Mornant i ddatblygu ac ymgynghori ynghylch cynnig i ffederaleiddio;

(2) Awdurdodi cymorth i'r ddwy ysgol wrth iddynt gynllunio i ymgynghori ynghylch y cynnig i ffederaleiddio, gwneud penderfyniadau a'u gweithredu (gyda'r swyddogion presennol yn cynghori); ac

(3) Awdurdodi swyddogion i weithio gydag ysgolion lleol eraill a phartneriaid cymunedol i weld sut y gellid hybu cynaliadwyedd a chydnerthedd Ysgol Mornant

CHWEFROR 2016

Mynegai

Rhif	Adran	Tudalen
1	Cyflwyniad	3
2	Y Cynnig a’r Ymgynghoriad	3
3	Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori	4
4	Ymatebion i'r Ymgynghoriad	5
5	Ffurflenni ymateb a gohebiaeth	15
6	Ymateb gan Estyn	15
7	Ymateb gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol	17
8	Ymateb gan Lywodraethwyr	17
Atodiad A	Rhestr o rai sy’n derbyn y Ddogfen Ymgynghori	
Atodiad B	Crynodeb o’r materion a godwyd yn ystod cyfarfodydd	
Atodiad C	Canfyddiadau’r Cyngor Ysgol	
Atodiad D	Cofnodion Pennaeth/Llywodraethwyr	
Atodiad E	Crynodeb o faterion ac ymatebion	
Atodiad F	Crynodeb o ymatebion i'r Ffurflen Ymateb Safonol	
Atodiad G	Ymateb Estyn i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad H	Ymateb Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol i’r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	
Atodiad I	Ymateb y Llywodraethwyr i'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol	

1. Cyflwyniad

1.1 Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori trefniadaeth ysgolion ddod i ben, mae Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y cynigydd (y Cyngor) yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori. Yn y ddogfen hon mae gofyn i'r cynigydd:

- Roi crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd;
- Ymateb i'r rhain trwy eglurhad.
- Amlinellu barn Estyn (fel y darperir yn ei ymateb i'r ymgynghoriad) o ran rhinweddau cyffredinol y cynnig.

1.2 Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yr adroddiad hwn cyn penderfynu ar unrhyw argymhelliad sy'n ymwneud â'r cynnig.

2.0 Y Cynnig a'r Ymgynghoriad

2.1 Ar ddydd Mawrth 16 Mehefin, 2015, penderfynodd y Cabinet:

Agor cyfnod o ymgynghori ffurfiol gyda budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton gydag adroddiad i'w ddarparu i'r Cabinet yn y dyfodol.

2.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ddydd Mercher 11 Tachwedd, 2015 a daeth i ben, ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015.

2.3 Yn unol â'r cod, cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan Cyngor Sir y Fflint, ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015, a darparwyd dolen i'r dogfennau ymgynghori i fudd-ddeiliaid. Mae rhestr gyflawn o dderbynwyr i'w gweld yn **Atodiad A**.

2.4 Cyhoeddwyd fersiwn arbennig o'r ddogfen ymgynghori, ar gyfer plant ysgol gynradd ar wefan Cyngor Sir y Fflint hefyd a chafodd ei ddarparu i bob disgybl yn Ysgol Gymraeg Mornant. Darparwyd copïau o'r ddogfen hon i gynghorau ysgol yn Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon hefyd. Mae copïau o'r ddau fersiwn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn yr adran moderneiddio ysgolion ar wefan Cyngor Sir y Fflint ar y ddolen ganlynol: -

http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Ysgol-Gymraeg-Mornant-Picton.aspx

2.5 Darparwyd copïau papur o'r dogfennau ymgynghori i Ysgol Gymraeg Mornant, Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon, i bobl eu gweld pe na baent yn gallu defnyddio'r wefan. Roedd copïau caled

hefyd ar gael ar gais a naill ai'n cael eu postio neu eu casglu o Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

2.5 Roedd blwch post ar gael yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton ar gyfer postio ymatebion i'r ymgynghoriad a'u casglu gan aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion.

2.6 Cynhyrchodd y Cyngor ddogfen ymateb (ffurflen ymateb safonol) i gynorthwyo ac annog pobl i roi eu barn. Roedd hyn yn rhan o'r ddogfen ymgynghori a chafodd ei chyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor. Roedd y fersiwn plant a phobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb symlach. Cafodd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ei thrawsnewid yn arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r pecyn ar-lein survey monkey. Cyhoeddwyd y dolenni i'r arolwg hefyd ar y wefan.

2.7 Derbyniodd pawb yr ymgynghorwyd â nhw e-bost gyda dolen yn eu cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ffurfiol, dogfennau atodol, yn ogystal â dolen i'r arolwg ar-lein ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad ar 11 Tachwedd 2015.

2.8 Cynhyrchwyd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.0 Digwyddiadau/Cyfarfodydd Ymgynghori

3.1 Er nad yw'n ofyniad o dan y Cod, cynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd ymgynghori ar wahân ar 7 Rhagfyr, 2015 gyda:

Athrawon a staff ategol a chorff llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

Mynychodd swyddogion o Gyngor Sir y Fflint y cyfarfodydd hyn. Hysbysodd y swyddogion y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd am y broses hyd yn hyn a beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo. Roedd cyfle i'r mynychwyr i ofyn cwestiynau ac i fynegi eu safbwyntiau a'u barn yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau/cyfarfodydd ymgynghori hyn, ynghyd â'r ymatebion a roddwyd ar y pryd yn **Atodiad B.**

Rhieni/Gofalwyr/Gwarcheidwaid disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton

Cynhaliwyd cyfarfod i rieni/gofalwyr/gwarcheidwaid yn Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Derbyniodd pob rhiant/ gofalwr/ gwarcheidwad lythyr yn cynnwys y dyddiad, amser a'r lleoliad yn gofyn iddynt gofrestru eu presenoldeb yn y digwyddiad.

Roedd y digwyddiad ymgynghori yn caniatáu i rieni/ gofalwyr/ gwarcheidwaid gwrdd â chynrychiolwyr y Cyngor a gofyn cwestiynau neu godi materion a oedd yn berthnasol iddyn nhw fel unigolion yn Gymraeg neu Saesneg a hefyd y farn ehangach ynghylch yr ysgol a'r gymuned.

Mae crynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau/cyfarfodydd ymgynghori hyn, ynghyd â'r ymatebion a roddwyd ar y pryd yn **Atodiad B.**

3.2 Trefnwyd digwyddiad ymgynghori cyngor ysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, Picton. Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan y Cydlynydd Ysgolion Iach y mae eu swydd yn cynnwys ymgysylltu ac ymgynghori â chynghorau ysgol. Roedd aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y cyngor ysgol.

3.3 Trefnwyd digwyddiad ymgynghori gyda'r Cynghorau Ysgol yn Ysgol y Llys, Prestatyn hefyd. Roedd aelod o'r tîm moderneiddio ysgolion ac aelod o'r Tîm Athrawon Ymgynghorol Cymraeg hefyd yn bresennol yn y cyfarfod cyngor ysgol. Dewisodd Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Ysgol Treffynnon, hwyluso eu cyfarfod eu hunain gyda'r Cyngor Ysgol i drafod y cynnig.

Amlinellir canfyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Ysgol yn **Atodiad C.**

3.4 Cyfarfu'r Tîm Moderneiddio Ysgolion gyda Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgolion cyfagos a effeithir arnynt. (Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon).

Amlinellir cofnod o gyfarfodydd y Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yn **Atodiad D.**

4.0 Ymatebion i'r Ymgynghoriad

4.1 At ei gilydd, daeth 293 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y rhain yn cynnwys ymateb gan Estyn ar ffurf adroddiad. Daeth nifer o ymatebion i law ar ffurflenni ymateb electronig, negeseuon e-bost a llythyrau.

4.2 Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dull cysylltu	Nifer y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	174
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	21
Llythyrau a negeseuon E-bost	49
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	18
Ymatebion y Cyngor Ysgol	3
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgolion	4
Ymateb yr Undeb	1
Ymateb Estyn	1
Ymateb AC ac AS	21
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	1

Cyfanswm nifer y cysylltiadau	**293**

Rhestrir nifer y cysylltiadau a wnaed cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad ar y dudalen nesaf.

Dull cysylltu	Cyn yr Ymgynghoriad	Yn ystod yr Ymgynghoriad	Cyfanswm y Cysylltiadau a Dderbyniwyd
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0	174	**174**
Ffurflenni Ymateb Plant a Phobl Ifanc	0	21	**21**
Llythyrau a negeseuon E-bost	17	32	**49**
Llythyrau a negeseuon e-bost Plant a Phobl Ifanc	18	0	**18**
Ymatebion Llywodraethwyr Ysgolion	0	4	**4**
Ymatebion y Cyngor Ysgol	0	3	**3**
Ymateb yr Undeb	0	1	**1**
Ymateb Estyn	0	1	**1**
Ymatebion ACau ac ASau	12	9	**21**
Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	0	1	**1**
Cyfanswm nifer y cysylltiadau	**47**	**246**	**293**

4.3 Dadansoddiad o Wybodaeth Deisebu

Rhif	Math o Ymateb	Nifer o lofnodion
1	Deiseb ar-lein	807
Cyfansymiau		**807**

4.4 Amlygwyd y materion canlynol mewn dadansoddiad o ba mor aml y caiff materion eu codi yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth oedolion:

Safle	Mater	Disgrifiad	Pa mor aml y codwyd y mater
1	Effaith ar Ddiwylliant Cymru (Iaith, Cymuned a darpariaeth Addysg)	Pryder ynglŷn â'r effaith ar y Gymraeg yn Sir y Fflint. Pryder ynglŷn â gostwng darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Pryder ynglŷn ag effaith tynnu ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ardal gyda chanran uwch o siaradwyr Cymraeg. Pryderon y byddai llai o ddisgyblion yn mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Pryder y byddai rhieni / gwarcheidwaid yn dewis symud eu plentyn / plant i addysg cyfrwng Saesneg. Pryder ynglŷn â difrod i enw da'r Sir fel arloeswyr addysg cyfrwng Cymraeg. Yr argraff negyddol y byddai hyn yn ei greu. Pryder nad yw'r iaith yn derbyn y parch y dylai ei derbyn gan Gyngor Sir y Fflint. Pryder y dylai'r Cyngor ddiogelu'r holl Ysgolion Cyfrwng Cymraeg. Yr ysgol hon yw'r unig ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd Sir y Fflint.	157 sylw
2	Dewisiadau eraill	Dylid caniatáu i'r ysgol aros ar agor. Dylid archwilio'r syniad o ffederasiwn. Hyrwyddo, codi proffil a marchnata'r ysgol. Cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol. Hyrwyddo'r Cylch Meithrin. Dylai bod yr Awdurdod Lleol yn cefnogi'r ysgol i oresgyn yr heriau. Buddsoddi, neu godi a chynilo arian ar gyfer yr ysgol. Cludo plant o oed meithrin i'r ysgol i gynorthwyo i gynyddu'r niferoedd. Archwilio adolygiadau o ysgolion cyfrwng Saesneg. Ehangu'r dalgylch. Gwneud arbedion mewn mannau eraill. Symud yr ysgol i safle sy'n fwy addas.	83 sylw
3	Cryfderau Ysgol Gymraeg Mornant	Mae gan yr ysgol nifer o elfennau cadarnhaol. Mae'n ysgol deuluol hyfryd. Mae'r ysgol yn darparu cyfle unigryw i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi cefnogi fy nheulu. Mae'r athrawon yn gwneud amser ar gyfer y pethau bychain. Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn lleoliad hardd gyda golygfeydd o'r môr. Mae'r ysgol yn bwysig iawn i mi a'm	79 sylw

		teulu. Mae’r ysgol yn groesawgar ac mae gofal bugeiliol da. Mae llwybr y glowyr i’r Parlwr Du yn rhedeg ar hyd ochr yr ysgol lle y bu eu plant yn derbyn eu haddysg.	
4	Cludiant a Theithio	Bydd taith y disgyblion i’r ysgol yn cynyddu’n sylweddol. Nid wyf yn fodlon gadael i fy mhlentyn deithio heb oruchwyliaeth ar fws i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill. Mae teithio milltiroedd ychwanegol bob dydd yn hynod sylweddol ar gyfer rhywun 4/5 oed. Byddai’r polisi cludiant yn gorfodi rhai disgyblion i fynd i Ysgol Gwenffrwd yn erbyn dymuniadau eu rhieni. Nid yw costau ariannol gwirioneddol o gludo'r disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol wedi'u cyfrifo'n gywir. Byddai’r amser teithio ychwanegol i’r ysgolion eraill yn mynd tu hwnt i Fesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. Ni ellir ystyried yr amser teithio fel dechrau a diwedd rhesymol i ddiwrnod ysgol plentyn. Mae’r amseroedd teithio wedi’u tangyfrifo’n sylweddol. Mae problemau traffig trwm eisoes yn bodoli yn ystod cyfnodau prysur yn y safleoedd amgen. Ni fyddai fy mhlentyn yn gallu ymdopi â thaith hirach i’r ysgol ac ohoni, byddai'n peri gormod o bryder iddo.	52 sylw
5	Effaith ar y gymuned	Mae’r ysgol yn gwasanaethu hyd at 8 pentref o fewn Gogledd Orllewin y Sir. Bydd yn golled i aelodau’r gymuned. Mae’r asesiad o effaith ar y gymuned yn methu â dangos y gymdeithas gymunedol ehangach. Ni fyddai’r ysgolion amgen yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. Methu ag archwilio effeithiau cymunedol hir dymor. Bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar y gymuned oherwydd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae gardd goffa ar safle’r ysgol.	49 sylw
6	Nid yw’r Awdurdod Lleol yn dilyn polisi ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg	Mae’r cynnig yn debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ardal Sir y Fflint. Mae’r cynnig yn mynd yn erbyn polisi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir y Fflint. Byddai cyfleoedd cyfartal ar gyfer disgyblion yn yr ardal yn cael ei beryglu oherwydd ei bod yn anoddach derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’r cynnig yn tanseilio unrhyw ymdrechion cadarnhaol i gynllunio ar gyfer	36 sylw

		dyfodol darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir.	
7	Cysylltiadau Teuluol a hanes yr ysgol	Mae aelodau eraill y teulu'n mynychu'r ysgol, sy'n cynnal agosrwydd a system gefnogaeth. Mynychais yr ysgol hon ac mae fy wyrion a wyresau'n mynychu'r ysgol. Mae nifer o atgofion hapus / melys o fynychu'r ysgol hon. Mae pob aelod o'n teulu wedi'u haddysgu yma. Es i yno ac rwyf eisiau anfon fy mhlant i'r ysgol hon.	32 sylw
8	Effaith ar Ofal Plant	Nid yw'r ddogfen yn sôn am yr effaith negyddol ar y Cylch Meithrin a Grŵp Ti a Fi. Nid oes cynnig i adleoli'r Cylch Meithrin pe bai'r ysgol yn cau. Dylai bod darpariaeth grŵp meithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.	23 sylw
9	Dogfen Ymgynghori	Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal ac mae hyn yn gamarweiniol. Mae'r ddogfen yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi dyddio - dylai ffigwr capasiti'r ysgol fod yn 81 nid 111 Nid yw'n ystyried disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr wybodaeth o ran perfformiad yr ysgol. Mae gwybodaeth arolwg Estyn wedi dyddio ar gyfer ysgolion amgen eraill. Mae'r ddogfen yn nodi nad yw gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu, nid yw hyn yn wir gan fod Cylch Meithrin, grŵp Ti a Fi (grŵp rhieni a babanod). Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn gwella safon ac ansawdd addysg yn yr ardal. Mae'r ddogfen yn annigonol gan ei bod yn darparu argraff anghywir bod y gymuned a'r dalgylch wedi'i gyfyngu i bentrefan Gwespyr-Picton. Mae cyflwr Ysgol Gwenffrwd wedi derbyn gradd C gan arddangos diffygion mawr a buddsoddiad sylweddol. Mae'r ddogfen yn gamarweiniol. Mae'r cyfraddau geni yn y ddogfen o 5 mlynedd yn ôl yn gwbl annigonol. Nid yw'r ddogfen yn cydnabod mai'r rheswm tebygol dros ostyngiad yn nifer y disgyblion yw oherwydd ansawdd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a diwylliant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol.	21 sylw

		Mae’r ddogfen ymgynghori’n mynd ati’n fwriadol i ddangos yr ysgol ar ei gwaethaf sy'n annigonol, yn annheg ac yn anghywir. Nid yw’r Cylch yn rhannu’r un ardal chwarae. Mae’n anghywir datgan nad oes llefydd parcio dynodedig. Mae dros 90% o’r plant yn yr ardal yn mynychu Ysgol Gymraeg Mornant fel eu hysgol leol ar hyn o bryd.	
10	Effaith ar ddisgyblion	Gallai symud i ddosbarthiadau mwy effeithio ar gyrhaeddiad y plentyn yn yr ysgol. Bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar rieni / gwarcheidwaid o ran cefnogi eu plentyn / plant mewn gweithgareddau ychwanegol. Mwy o effaith negyddol ar ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol Nid oedd gan unrhyw aelod o Ysgol Gymraeg Mornant safbwynt cadarnhaol yn ystod eu cyfarfod ymgynghori. Byddai’n cymryd mwy o amser i gasglu plentyn sâl o’r ysgolion amgen. Byddai symud o ysgol bentref fychan i ysgol fawr mewn tref yn dychryn ac yn niweidiol. Byddai’n rhaid iddynt deithio a chymysgu mewn grwpiau mawr a byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar nifer ohonynt, yn enwedig plant o gymuned y teithwyr. Byddai iechyd a lles a hawl y disgybl i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyfyngu’n sylweddol. Llai o amser i wneud gwaith cartref a gweithgareddau eraill. Byddai'n drawmatig ar gyfer y disgyblion. Os mai’r cynnig yw cau'r ysgol bydd yn achosi cryn dipyn o aflonyddwch ar gyfer y disgyblion.	14 sylw
11	Effaith ar Rieni / Gwarcheidwaid	Pryder ynglŷn â setlo mewn cymuned ysgol newydd. Byddai rhieni / gwarcheidwaid yn ei chael yn anoddach bod yn rhan o gymuned yr ysgol yn gyffredinol oherwydd y pellter o’r cartref i’r ysgol. Mae’r effaith ar rieni / gwarcheidwaid wedi’i anwybyddu. Mae’r ysgol mewn ardal o amddifadedd gan wneud yr effaith yn fwy mewn nifer o ffyrdd – prynu gwisgoedd newydd a chostau cludiant.	11 sylw
12	Ysgolion amgen.	Nid oes unrhyw leoedd ym mlynyddoedd iau Ysgol y Llys, Prestatyn. Nid oes unrhyw leoedd yn y Blynyddoedd Cynnar yn Ysgol Gwenffrwd.	8 sylw

		Os nad oes lle mewn grwpiau blwyddyn penodol nid oes sicrwydd y bydd fy holl blant yn cael lle yn yr un ysgol. Nid yw'n cael ei grybwyll yn y dogfennau fod Ysgol Gwenffrwd yn gwbl anhygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Yn draddodiadol mae'r ysgolion eraill yn denu o ysgolion nad ydynt yn rai gwledig ac ardaloedd adeiledig, mae hyn yn gwbl wahanol i ardal Mornant – a byddai'n newid dynamig dysgu yn yr ardal. Yr wyf yn deall bod rhieni Ysgol y Llys yn uno i geisio atal ein plant rhag mynychu eu hysgol. Mae'n debyg bod aelod o staff yn Ysgol y Llys wedi siarad yn agored â rhiant yn cwyno bod ein plant yn cael eu 'dympio' ar eu hysgol. Ehangu'r dalgylch.	
13	Effaith ar Staff Addysgu	Mae'n rhaid trin staff yr ysgol yn ofalus a chyda cydymdeimlad. Byddai'r staff yn colli eu swyddi.	6 sylw
14	Y Broses Ymgynghori	Methodd yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb â nodi beth sydd ei angen. Nid oes unrhyw un o'r ysgolion Saesneg yn yr ardal gyfagos yn cael eu hadolygu. Teimlir fel bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud a bod y Cyngor yn dilyn y broses. Mae'r broses wedi annog pobl i beidio â chofrestru eu plentyn / plant. Mae profiad blaenorol wedi dangos nad yw ymgynghori'n newid dim gan amlaf.	5 sylw
15	Sylwadau Cadarnhaol	Mae ysgolion o'r maint a'r safonau priodol ym Mhrestatyn a Threffynnon. Mae safonau arweinyddiaeth yn annigonol ac mae'n anodd newid hyn mewn ysgol fach.	2 sylw
16	Datblygiad Tai	Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn awgrymu bod datblygiadau tai ar y gweill.	1 sylw

4.5 Amlygodd y dadansoddiad o ba mor aml y mae materion yn cael eu codi yn yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan blant a phobl ifanc y materion canlynol:

Safle	Mater	Disgrifiad	Pa mor aml y codwyd y mater
1	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion. Pryder y byddai grwpiau cyfoedion a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu. Y gofid y byddai cau'r ysgol yn ei achosi i ni. Pryder dros wahanu ffrindiau, colli a gweld eisiau ffrindiau.	95 sylw

		Pryder dros wneud ffrindiau newydd. Pryder ynglŷn â cholli a gweld eisiau'r athrawon. Methu'r ysgol pe bai'n cau. Ddim eisiau mynd i ysgol arall. Ni fydd neb yn hapus. Byddaf yn colli fy holl atgofion. Terminoleg arall a ddefnyddiwyd • Trist, anhapus, digalon, trist, isel, tor-calon, unig, dryswch, ar goll, blin, swil ac anghyfforddus.	
2	Y Gymraeg	Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli. Bydd yr iaith yn marw yn yr ardal. Nid oes llawer o ysgolion Cymraeg yn yr ardal. Angen cadw'r Gymraeg yn fyw. Nid oes llawer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal gyfagos. Pe bai'r ysgol yn cau byddwn yn mynd i ysgol Saesneg fel fy mam a'n nhad. Peidiwch â chau'r ysgol gan ei bod yn ysgol Gymraeg.	19 sylw
3	Agweddau cadarnhaol yr ysgol ei hun	Mae'n ysgol fach hyfryd. Mae gennym nifer o atgofion o'n plentyndod. Mae'r ysgol yn gwneud i ni deimlo'n arbennig. Profiadau anhygoel a gafwyd gan yr ysgol. Mae'r ysgol mewn hen adeilad. Rydym yn cael hwyl yma Mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Rydyn ni fel teulu. Mae ein hysgol yn arbennig. Rwy'n nabod pawb. Mae'r ysgol yn golygu popeth i mi. Mae'n hen ysgol. Mae pawb yma'n hapus.	18 sylw
4	Dewisiadau eraill	Cadw'r ysgol ar agor. Ceisio cael mwy o ddisgyblion i'r ysgol. Agor ysgol Gymraeg fwy. Y Sir i gefnogi ysgolion bach. Gwneud mwy ar y teledu. Dewch i weld yr ysgol.	17 sylw
5	Cysylltiadau teuluol	Mae fy nheulu wedi dod yma dros y blynyddoedd.	5 sylw
6	Effaith ar Staff Addysgu	Byddai'r staff heb swyddi. Mae'r athrawon wedi bod yma ers amser hir.	4 sylw
7	Arall	Beth fydd yn digwydd i'r adeilad? Pam ydych chi wedi agor ysgolion Cymraeg eraill?	2 sylw

8	Effaith ar rieni / gofalwyr	Bydd yn rhaid i rieni dalu mwy am ysgol newydd.	1 sylw

4.6 Mae dadansoddiad o amlder materion sy'n cael eu codi o fewn yr ohebiaeth gan blant a phobl ifanc a dderbyniwyd gan Gynghorau Ysgol yn tynnu sylw at y materion canlynol:

Safle	Mater	Disgrifiad	Pa mor aml y codwyd y mater
1	Effaith ar ddisgyblion	Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion. Pryder y byddai grwpiau cyfoedion a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu. Y gofid y byddai cau'r ysgol yn ei achosi i ni. Pryder am ffrindiau'n cael eu gwahanu. Tristwch a dicter petai'r ysgol yn cau. Pryder ynglŷn â cholli ffrindiau a pheidio â gweld ein gilydd. Pryder ynglŷn â cholli athrawon. Pryder ynglŷn â chael athrawon newydd. Byddwn yn colli'r ysgol. Pryder dros wneud ffrindiau newydd. Nerfus ynglŷn â dechrau mewn ysgol newydd. Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach. Pryder am ddechrau eto. Gwisg ysgol newydd. Terminoleg arall a ddefnyddiwyd: • Isel, unig iawn, nerfus, nid yw'n deg, rwyf am grio, teimlo'n isel, dryswch, dydw i ddim eisiau meddwl am y peth, mynd i fod yn swil, ddim yn gwybod beth i'w wneud, ofnus, anghyfforddus, pryderus, trist, blin iawn, anhapus ac ar goll.	132 sylw
2	Sylwadau sy'n cefnogi'r cynnig	Byddwn yn hoff iawn o wneud ffrindiau newydd. Byddwn yn hapus cyfarfod â phlant newydd. Teimladau cymysg. Byddwn yn hapus gan y byddai gan yr ysgol hon fwy o blant. Mae'n rheswm digon teg yn fy marn i. Rwyf yn hapus. Rydw i'n credu y byddai'n dda. Mae'n syniad da os nad oes digon o blant. Mae'n eithaf da ac yn eithaf drwg.	17 sylw
3	Awgrymiadau eraill	Dylem aros ar agor. Cau ysgol arall.	15 Sylw

		Agor mwy o ysgolion Cymraeg. Gwneud newidiadau i'r ysgol. Dylai bod o leiaf un ysgol Gymraeg ym mhob tref. Dylai bod ysgol Gymraeg ym mhob pentref waeth pa mor fach ydyw. Cau'r ysgolion Saesneg, mae digon ohonyn nhw. Gallant rannu dosbarthiadau. Codi arian ar gyfer yr ysgol. Datblygu gwefan yr ysgol. Cael mwy o ddisgyblion.	
4	Agweddau cadarnhaol yr ysgol ei hun	Mae pawb yn gofalu am ei gilydd. Mae gennym gyfeillgarwch da. Mae'r ysgol ar safle hyfryd. Mae gennym lawer o le. Y Gymraeg Mae'n ysgol unigryw. Mae pawb fel teulu. Mae gennym olygfa dda. Mae pawb yn adnabod ei gilydd.	12 sylw
5	Effeithiau ar yr iaith Gymraeg;	Tristwch na fyddai ysgol Gymraeg Byddwn yn gweld eisiau'r Gymraeg. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r iaith Gymraeg. Pam cau ysgol Gymraeg? .	10 sylw
6	Sylwadau eraill	A fydd oedolyn ar y bws ar gyfer y bws meithrin. Pam ydych chi'n ceisio cau'r ysgol? Beth os oes ysgol Saesneg yn agosach na'r ysgol Gymraeg? Beth os nad oes digon o le yn yr ysgol arall i bawb? Beth fydd yn digwydd i'r adeilad? Tristwch oherwydd nad oes gan yr ysgol lawer o arian. A oes ysgol arall yn ardal Picton? A fydd digon o le yn y ffreutur i bawb?	8 sylw
7	Effaith ar rieni / gofalwyr	Bydd yn rhaid i rieni symud. Bydd arian yn cael ei wastraffu.	2 sylw
8	Trafnidiaeth	Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhieni yrru'r plant i ysgol arall. A oes bws ar gael?	2 sylw
9	Gofal plant	Byddai'n cael effaith fawr ar blant dan 5, a meithrinfa'r ysgol	1 sylw
10	Effaith ar athrawon	Bet fydd yn digwydd i'r athrawon?	1 sylw

4.5 Mae ymateb y Cyngor i'r pryderon a godwyd ar gael yn **Atodiad E.**

5.0 Ffurflenni ymateb a gohebiaeth

5.1 Cafodd y ffurflen ymateb safonol ei chynllunio i sefydlu:

- a oedd pobl o blaid y cynnig ai peidio;
- ym mha rinwedd roeddent yn ymateb;
- a oes ganddynt gysylltiad â'r ysgol ai peidio;
- pa awgrymiadau eraill fyddai ganddynt ar gyfer cynnal addysg yn yr ardal; ac
- a oeddent yn awyddus i wneud unrhyw sylwadau eraill.

5.2 Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ffurflen ymateb safonol wedi'i nodi yn **Atodiad F .**

5.3 Ar y ffurflenni ymateb, gofynnom i bobl i gadarnhau a oeddent yn ymateb fel disgybl, rhiant, llywodraethwr, athro, staff cymorth, preswylydd lleol neu arall. Amlinellir manylion yr ymatebwyr yn **Atodiad F.**

6.0 Ymateb gan Estyn

Amlinellir y prif bwyntiau a wnaed gan Estyn mewn ymateb i'r cynnig ac ymateb y Cyngor iddynt isod.
Mae ymateb llawn gan Estyn wedi'i nodi yn **Atodiad G.**

Sylw Estyn	Sylwadau sydd angen eu hateb
Mae'n debyg y bydd y cynnig presennol yn cynnal y ddarpariaeth addysg a'r canlyniadau ar gyfer y disgyblion yn yr ardal o leiaf.	Amh.
Mae'r cynigydd wedi nodi rhesymeg glir a manwl iawn ar gyfer y cynnig. Mae'r cynnig wedi'i osod yn briodol yng nghyd-destun strategaeth moderneiddio ysgolion diwygiedig y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â'i amcanion i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd gan ysgolion bach a'r niferoedd cymharol uchel o leoedd gwag o fewn y cyngor.	Amh.
Mae'r cynigydd yn darparu crynodeb ddefnyddiol o'r heriau a'r sbardunau sy'n arwain y cyngor i lunio'r cynnig hwn.	Amh.
Mae'r cynnig yn amlinellu prif fanteision ac anfanteision y cynnig. Maent yn nodi'n rhesymol y byddai gostwng y lleoedd gwag a'r arbediad cysylltiedig yn arwain at ddefnydd mwy effeithiol o adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu ar draws y Cyngor.	Amh.
Yn briodol, mae'r cynigydd yn hawlio y bydd hyn yn gwella ansawdd addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a diogelu disgyblion ar draws Sir y Fflint rhag adnoddau gostyngol.	Amh.
Mae'r cynnig yn darparu dadansoddiad manwl addas o sut bydd y newid yn effeithio ar leoedd dros ben. Mae'n darparu data defnyddiol ac eglur i ddangos	Amh.

bod dros hanner y lleoedd yn Ysgol Gymraeg Mornant yn wag a disgwylir y bydd y rhain yn codi i dros 70% yn y pum mlynedd nesaf.	
Ymddengys fod gan y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf ddigon o leoedd gwag ac yn raddol yn cynyddu rhagamcanion disgyblion i ddarparu darpariaeth amgen addas ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant.	Amh.
Mae'r cynnig yn nodi tair anfantais ac yn darparu crynodeb cynhwysfawr o'r mesurau y bydd yn rhaid i'r cyngor eu gweithredu er mwyn lleihau eu heffaith ar amseroedd teithio disgyblion, adleoli staff neu ddiswyddo a'r gymuned leol. Mae dogfennau ymgynghori ac asesiad o effaith manwl yn darparu gwybodaeth bwysig i gefnogi datganiadau rheoli risg y cynnig.	Amh.
Mae'r cyngor yn cydnabod yr effaith y gall y cynnig ei gael ar y gymuned leol. Mae dogfen ategol yr Asesiad o effaith ar y Gymuned yn darparu dadansoddiad agored ac onest o effaith cadarnhaol a negyddol a gweddilliol posibl ar deuluoedd a'r gymuned leol.	Amh.
Mae'r cynnig wedi ystyried effaith posibl pob opsiwn ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Mae'n deg nodi, y gallai cau'r ysgol arwain at rieni a disgyblion yn dewis ysgol cyfrwng Saesneg sy'n agosach at eu cartrefi. Gall hyn leihau nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu a'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n awgrymu'n rhesymol y gall rhieni a disgyblion sy'n ymrwymo i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg ddewis ysgol cyfrwng Cymraeg briodol arall.	Amh.
Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith bosibl ar ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn â lefel y galw yn y tair ysgol a nodwyd yn y cynnig a gwerthusiadau arolwg diweddar ynglŷn ag ansawdd eu darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.	Amh.
Yn bwysig, mae'r cynigydd yn nodi, ar gyfer disgyblion gydag anghenion sydd angen addasiadau ffisegol i'r amgylchedd dysgu, bydd y cyngor yn 'gweithio'n agos gyda rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau cyfnod pontio llyfn.'	Amh.
Mae'r cynigydd yn datgan yn rhesymol y bydd y cynnig yn cynnal darpariaeth addysg a chanlyniadau ar gyfer disgyblion yn yr ardal o leiaf. Mae'n gwneud defnydd da o ganlyniadau adroddiadau arolwg diweddar Ysgol Gymraeg Mornant a'r ysgolion cyfrwng Cymraeg agosaf i gefnogi'r safbwynt y bydd y cynnig o fudd i ganlyniadau disgyblion, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynnig yn gwneud defnydd effeithiol o ddata perfformiad ar gyfer pob ysgol. Mae'n cydnabod bod cymariaethau data perfformiad mewn ysgol fach flwyddyn ar ôl blwyddyn yn annibynadwy'n ystadegol. Fodd bynnag, mae'n awgrymu'n rhesymol bod disgyblion presennol Ysgol Gymraeg Mornant	Amh.

yn elwa o ddarpariaeth mewn ysgolion eraill lle bo disgyblion yn cyflawni safonau sy'n gyffredinol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.	
Mae'r cynigydd yn cyfeirio at adroddiad Estyn ar 'faint ysgol ac effeithiolrwydd addysg' i gyfiawnhau ei ddadl fod y pwysau ar adnoddau, mewn ysgol fach, yn darparu heriau ar gyfer darpariaeth y cwricwlwm. Felly, mae'n dderbyniol bod y cynigydd yn nodi na fydd y newidiadau'n cael effaith negyddol ar ansawdd profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r cynnig yn awgrymu'n rhesymol bod ysgolion amgen mwy yn gallu darparu timau arweinyddiaeth sy'n gallu darparu datblygiad staff effeithiol i ddarparu'r cwricwlwm yn dda.	Amh.
Mae'r cynnig yn nodi nifer cyfyngedig o ffactorau, a allai gael effaith negyddol ar ddysgwyr ac yn darparu sicrwydd y bydd y cyngor yn cynllunio trefniadau pontio priodol i liniaru'r rhain. Mae'r cynnig yn nodi'r goblygiadau ar gyfer amseroedd teithio'r disgyblion a'i ymrwymiad i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion lle bo'n briodol	Amh.

7.0 Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

At ei gilydd, daeth 21 o ymatebion i law cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol i ymateb i'r ymgynghoriad:

Amlinelliad o Ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol

Rhif	Math o Ymateb	Ymateb gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol	
		ACau	ASau
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0	0
2	Llythyrau a negeseuon e-bost	16	5
Cyfansymiau		**16**	**5**

Gellir gweld y llythyrau gan Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol ac ymatebion gan yr awdurdod yn **Atodiad H.**

8.0 Ymatebion gan Lywodraethwyr

At ei gilydd, daeth 4 o ymatebion i law gan lywodraethwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r tabl isod yn dangos y dulliau y defnyddiodd llywodraethwyr i ymateb i'r ymgynghoriad:

Dadansoddiad o'r Ymatebion gan Lywodraethwyr

Rhif	Math o Ymateb	Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraethwyr
1	Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad	0
2	Llythyrau a negeseuon e-bost	4
Cyfansymiau		**4**

Gellir gweld yr ohebiaeth gan lywodraethwyr yn **Atodiad I**.

ATODIAD A

ATODIAD A

Rhestr o dderbynwyr y ddogfen ymgynghori (fersiynau ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc); Asesiad Trafnidiaeth, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg ac Asesiad o Effaith ar y Gymuned

Rhif	Rhanddeiliaid	Nifer ar y rhestr o dderbynwyr
1	Awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynnig	20
2	Unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio Cyngor Sir Ddinbych – Moderneiddio Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Moderneiddio Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Moderneiddio Ysgolion	3
3	Yr Eglwys yng Nghymru	1
	Yr Awdurdod Esgobaethol Pabyddol	1
4	Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	11
	Corff Llywodraethu Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	11
	Corff Llywodraethu Ysgol Y Llys, Prestatyn	11
5	Rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid / darpar rieni / athrawon / staff cymorth / Cyngor Ysgol Gymraeg Mornant, Picton	73
	Rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid / darpar rieni / athrawon / staff cymorth / Cyngor Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon	271
	Rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid / darpar rieni / athrawon / staff cymorth / Cyngor Ysgol Y Llys, Prestatyn	371
6	Gweinidogion Cymru, ACau ac ASau	7
7	Estyn	1
8	Undebau llafur athrawon a staff	18
9	Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru – Consortiwm - GWE	2
10	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol	4
11	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	1
12	Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir / a wasanaethir yn y dyfodol gan unrhyw ysgol sy'n destun i'r cynnig	6
13	Y Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol	1
14	Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol	1
15	Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc	1
16	URDD	1
17	Rheolwyr Ysgolion Llywodraeth Cymru	4
18	Aelodau Lleol	7
19	Cydraddoldeb a'r Gymraeg	2
20	Ysgol Uwchradd Leol – Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr	4
21	Awdurdod Iechyd Lleol	1
	CYFANSWM	**834**

ATODIAD B

YSGOL GYMRAEG MORNANT, PICTON- DIGWYDDIAD YMGYNGHORI RHIENI / GOFALWYR / GWARCHEIDWAID, NOS LUN 7 RHAGFYR 2015, 18.00pm

Yn bresennol o'r Cyngor:
Y Cynghorydd Chris Bithell, Ian Budd, Damian Hughes, Claire Homard, Jeanette Rock, Gill Yates, Jennie Williams, Sarah Thomas

Croesawodd IB y rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid i'r cyfarfod i nodi eu pryderon a'u hofnau. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael os oedd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid yn dymuno siarad drwy gyfrwng y Gymraeg. Datganwyd mai pwrpas yr adolygiad oedd sicrhau fod eu pryderon yn cael eu mynegi. Cadarnhaodd IB y byddai'r cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i rannu â'r ysgol a gwneuthurwyr penderfyniadau. Mae'n gofnod cyhoeddus ac ar gael i bawb. Rhennir pob barn ag aelodau'r Cabinet a fydd yn cymryd y rhain i ystyriaeth.

Bydd sesiwn Holi ac Ateb yn dilyn cyflwyniad Powerpoint byr. Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at flaenoriaethau cyllid y cyngor ar gyfer dysgwyr a diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed; gostyngiad o £52m mewn gwasanaethau cyhoeddus dros y 3 blynedd nesaf; mae ceisio rheoli cynnydd mewn cymarebau disgyblion athrawon yn flaenoriaeth; her ariannol y dyfodol y gall y gymuned gymryd rhan ynddi; her i ysgolion bach a sut y gellid eu trefnu yn y dyfodol wrth iddynt orfod rheoli adnoddau sy'n prinhau; bydd y broses derbyn disgyblion yn cynorthwyo teuluoedd i wneud eu dewisiadau; caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo drwy drefniadau pontio gyda'r ysgol hon ac ysgolion derbyn.

Cyfeiriodd GY at y rheoliadau derbyn disgyblion cenedlaethol, polisi Sir y Fflint a sut y gall rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid wneud cais am le i ddisgyblion. Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (cyfyngiad yn nifer y grŵp blwyddyn ond mewn amgylchiadau penodol bydd hawl i apelio i banel annibynnol; dolen i bolisi Cludiant Ysgolion Sir y Fflint ar y we; mae gan ddisgyblion hawl i gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn byw 2 filltir i ffwrdd o'u hysgol briodol agosaf.)

Datganodd IB y byddai opsiynau i deuluoedd yn cael eu trin ar sail unigol; roedd y cyfarfod yn broses ymgynghori ddechreuol i nodi'r problemau; yr amserlen ddangosol oedd ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2015 gan adrodd yn ôl i Gabinet y Cyngor ym mis Chwefror 2016 a fydd yn cynnwys copïau o bob gohebiaeth gan gymuned yr ysgol ynghyd ag adnabod y materion a godwyd ac ymatebion y cyngor. Yna bydd y Cabinet yn penderfynu p'un a ydynt am gyflwyno cynnig statudol i gau neu beidio â pharhau. Bydd angen cyhoeddi gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r rhybudd statudol. Gellir cyflwyno barn a gwrthwynebiadau i'r cyngor mewn amryw o ffyrdd.

Holi ac Ateb:

Gofynnodd IB i'r mynychwyr nodi rhai rheolau sylfaenol er mwyn helpu llif y cyfarfod; osgoi torri ar draws pan fydd rhywun arall yn siarad; osgoi cael sgyrsiau ochrol sy'n tarfu a pharchu barn eich gilydd.

C: Croeso cynnes iawn i chi i Ysgol Mornant. Byddaf yn siarad drwy gyfrwng y Saesneg.

C: Mae'r gwariant ar bob disgybl yng Nghymru yn is na Lloegr, hyd yn oed yn llai yn Sir y Fflint na'r cyfartaledd yng Nghymru. A fydd rhieni/gofalwyr sydd ond yn siarad Saesneg yn anfon eu plant/plentyn i Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon? Yn Ysgol y Llys, Prestatyn mae'r Ysgrifennydd yn awgrymu fod Cyngor Sir y Fflint yn 'dympio' plant arnyn nhw ac nad oes lle iddynt. Os bydd yr ysgol hon yn cau bydd yr iaith Gymraeg yn marw yn yr ardal hon. A yw Sir y Fflint yn cefnogi'r iaith Gymraeg?

A: Diolch i chi am eich croeso cynnes. Caiff y pwyntiau a godwyd gennych eu nodi.

C: Rwy'n riant Saesneg ac rwyf wedi dewis anfon fy mhlentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg. Teimlaf eich bod yn mynd â'r dewis hwn oddi wrthym. Mae'r iaith Gymraeg yn eithriadol o bwysig yng Nghymru.

A: Ni allaf anghytuno â chi fod yr iaith Gymraeg yn bwysig yng Nghymru. Rydym mewn sefyllfa ariannol ddigyffelyb ac mae'n rhaid i'r Awdurdod ddiwallu anghenion dysgu ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg.
C: Os bydd yr ysgol yn cau, efallai y bydd pobl yn dewis anfon eu plentyn/ plant i ysgol cyfrwng Saesneg?
A: Mae hyn wedi'i nodi fel risg yn y ddogfen.
C: Arbedion cludiant. Sut allwch chi wneud arbedion? Bydd plant ar fysiau am 7.00am yn y bore i gyrraedd yr ysgol?
A: Yn y ddogfen rydym wedi gwneud tybiaethau ynglŷn â'r ysgolion eraill y bydd y plant yn eu mynychu. Fel opsiwn enghreifftiol rydym wedi gosod pob plentyn yn Ysgol Gwenffrwd. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen a bod yr ysgol yn cau, ar ôl derbyn dewisiadau pob rhiant ar gyfer ysgolion eraill gallwn ddarparu mwy o fanylion ynglŷn ag arbedion cludiant. Bydd cludiant yn dilyn y Mesur Cludiant Dysgwyr ac ni fydd unrhyw blentyn oedran cynradd yn teithio mwy na 45 munud i'r ysgol.
C: Mae fy mhlant i yn teithio i Ysgol Maes Garmon ac yn gadael am 7.40am. Mae hynny dros awr.
A: Mae'r canllawiau'n wahanol ar gyfer disgyblion oedran uwchradd.
C: **Ni allaf gredu'ch bod wedi gwneud tybiaethau mewn dogfen mor bwysig. Y sefyllfa waethaf fyddai fod y plant yn mynd i bob man.**
C: Pam ydych chi wedi hyrwyddo yn y ddogfen y gall plant gael addysg o safon well mewn ysgolion eraill. Mae fy mhlentyn i ar lefel uwch na'r cyfartaledd a'r cyfartaledd cenedlaethol. Teimlaf ei bod yn cael addysg o safon dda yma.
A: Mae angen i'r gwneuthurwyr penderfyniadau fod yn hyderus fod safon yr addysg yn well neu o leiaf cystal.
C: Rydych yn rhagdybio fod yr addysg a ddarperir yn well ac y bydd yn aros felly mewn ysgolion eraill. Hyd yn oed gyda'r toriadau yn y gyllideb a fydd yr ysgolion eraill yn llwyddo i gynnal yr un safonau addysgol?
A: Gyda llai o gyllid bydd Llywodraethwyr yn ei chael yn anoddach cynnal yr un lefelau staffio. Ni fyddant bellach yn gallu fforddio dosbarthiadau bach.
C: Ni allwch gymryd yn ganiataol y bydd athrawon/staff yn aros yr un fath yn yr ysgolion eraill
A: Fel corff annibynnol, bydd Estyn yn ymateb i'r dogfennau ymgynghori a bydd asesiad o'r cynnig i gynnal safonau addysgol yn yr ardal.
C: Symudom o ysgol fwy 12 mis yn ôl ac mae ein plentyn bellach yn edrych ar fywyd a'r ysgol mewn ffordd hollol wahanol. A fydd y safon yn dal yno yn yr ysgolion eraill?
A: Mae gan bawb ei stori bersonol. Gallwch edrych ar safonau'r ysgolion eraill ar wefan Mylocalschool.com
C: Pa welliannau fydd i safonau addysg? Ni fydd yn gwella'r iaith Gymraeg os byddant yn dewis cyfrwng Saesneg.
A: Mae Cynghorwyr wedi gwneud gwaith da yn diogelu cyllidebau ysgolion ers sawl blwyddyn. Ond ni allwn barhau i'w diogelu. Mae'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn neges allweddol yn y ddogfen ymgynghori.
C: Mae'r ysgol yn edrych ar ffedereiddio ag Ysgol Maes Garmon (Uwchradd) yn yr Wyddgrug
C: Rwyf wedi gweithio yn yr ysgol hon ers 6 mlynedd fel Cynorthwy-ydd Addysg ac nid wyf erioed wedi bod ar gwrs a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg
A: Nid oedd modd i ni ddarparu cyrsiau'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg, er bod awdurdod cyfagos yn gallu gwneud hynny i ni. Rydym bellach mewn sefyllfa i gynnig cyrsiau'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg.
C: Sut fydd cau ysgol cyfrwng Cymraeg yn helpu dwyieithrwydd?
A: Mae dwy ysgol cyfrwng Cymraeg arall ar gael o fewn pellter rhesymol.
Q: Rwy'n dod o Sir Ddinbych a dywedwyd wrthyf fod Ysgol y Llys, Prestatyn yn llawn. Rwy'n dewis anfon fy mhlant i'r ysgol hon.

A: Ym mis Medi 2015, roedd gan Ysgol y Llys, Prestatyn 148 o leoedd heb eu llenwi. Rydym yn cael trafodaethau â Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r cynnig, ac mae hefyd yn ymgynghorai sy'n derbyn y ddogfen ymgynghori.
C: Sut ddylem wella'r sefyllfa i ostwng lleoedd dros ben tra'r ydym yn cael ein hadolygu.
A: Ni ddylai hynny'ch atal rhag ceisio dod o hyd i fodelau eraill. Os oes hyder mewn datblygiad model arall gellid atal y broses tra bod y model arall yn cael ei archwilio.
C: Mae'r amserlen yn dangos y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ym mis Mai 2016. Nid yw hyn yn rhoi llawer o amser i chi ymchwilio ac edrych ar ysgolion eraill.
A: Mae hwn yn bwynt dilys a fydd yn cael ei nodi yn y broses ymgynghori. Nid yw'r dyddiadau hyn yn sefydlog a gellid atal y broses ar unrhyw adeg i edrych ar fodelau eraill.
C: Pa wybodaeth sy'n ofynnol i'r Cabinet gefnogi ffedereiddio ag Ysgol Maes Garmon?
A: Mae cod penodol ynglŷn â ffedereiddio. Bydd angen i'r cynnig a gyflwynir i'r Cabinet ynglŷn â ffedereiddio brofi ei fod yn hyfyw a'ch bod yn bartner. Mae enghreifftiau o ysgolion 3-16 yng Nghymru.
C: Mae gennych gyfrifoldeb i hyrwyddo ysgolion cyfrwng Cymraeg. Pam na allwch wneud hynny yma, fel y gwnaethoch yng Nghroes Atti, Shotton? A yw'r arian i gyd wedi mynd i'r fan honno?
A: Mae'r Awdurdod yn cael anhawster â'r toriadau ac ni allwn gynnal rhai ysgolion llai. Yn amlwg, mae hon yn sefyllfa nad oes yr un ohonom am fod ynddi, ond mae'r Awdurdod yn edrych ar hyn ar draws Sir y Fflint gyfan. Nodwyd fod yr ysgol cyfrwng Cymraeg yng Nghroes Atti yn ofynnol gan rieni/gofalwyr oherwydd bod angen yn yr ardal.
C: A yw Cynllun Strategaeth yr Iaith Gymraeg yn ddogfen gyhoeddus?
A: Ydy ac mae'r cynllun presennol ar y wefan a bydd fersiwn adolygedig ar gael ar 20 Rhagfyr 2015.
C: A fydd yr ysgol cyfrwng Saesneg newydd yn Nhreffynnon yn llawn? Os felly, a oes gennych ffigyrau?
A: Rydym yn obeithiol, rydym wedi buddsoddi llawer yn yr ardal.
C: A fydd gennych hawl i apelio os yw'r grŵp blwyddyn yn llawn?
A: Gall y tîm derbyn disgyblion siarad â chi am achosion unigol ac os yw grŵp blwyddyn yn llawn, mae gennych hawl i apelio.
C: Beth os yw fy mhlentyn yn mynychu Ysgol y Llys, Prestatyn ond fy mod wedyn yn dymuno iddo fynychu Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug? Nid oes gan y ddwy ysgol unrhyw gysylltiadau.
A: Mae hyn yn rhywbeth y byddai'n rhaid i ni weithio arno gyda'r ysgolion.
C: Mae gennyf blant 6 oed a 3 oed. Allwch chi warantu y bydd lle i'r ddau ohonynt yn yr un ysgol?
A: Heb wirio'r ffigyrau disgybloin ni allaf warantu hynny. Rwy'n fodlon trafod achosion unigol os hoffech gysylltu â mi.
C: Mae'r ddogfen yn cyfeirio at ysgol gerllaw – sy'n ymylu at fod yn anonest. A yw Treffynnon gerllaw? Rydych wedi gwneud y ddogfen yn unochrog o blaid cau. Mae arolygon Estyn yn anghyfredol.
A: Ni ellir cynnal arolygon Estyn ym mhob ysgol bob 12 mis. Maent yn seiliedig ar raglen 6 mlynedd. Y wybodaeth Estyn yn y ddogfen yw'r wybodaeth gyhoeddus ddiweddaraf sydd ar gael.
C: Pe bawn yn anfon fy mhlentyn ifanc ar fws i Dreffynnon, a fyddai rhywun gyda hi?
A: Byddai'n dibynnu ar oedran y plentyn, ond mae cymorth i deithwyr ar gael.
C: A oes gennym siawns i achub ein hysgol?
A: Oes, y Cabinet sy'n penderfynu, ni allwn bennu o flaen llaw beth fydd canlyniad y cynnig. Mae'r Cabinet yn penderfynu beth fydd y camau nesaf ar gyfer yr ysgol.
C: Pa gymorth sydd ar gael er lles emosiynol y plant?
A: Mae angen i ni gadw'r sefyllfa'n dawel ac mae gan rieni/gofalwr rôl i'w chwarae yn hyn o beth. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd cynllun pontio yn cael ei roi ar waith.
C: O safbwynt y Cabinet, pwy fydd yn deall yr iaith Gymraeg/diwylliant Cymreig.
A: Nid yw cau ysgol yn benderfyniad a wneir yn ysgafn gan y Cabinet. Bydd ganddynt ddealltwriaeth wirioneddol o'r materion. Fel Aelod o'r Cabinet, roeddwn yn athro profiadol am gyfnod hir ac rwyf wedi treulio llawer o amser yn gwrando ar broblemau Trefniadaeth Ysgolion.

C: Darllenodd fy mam y ddogfen ymgynghori ac mae hi'n dweud ei bod yn rhoi'r argraff y byddai fy mhlentyn yn derbyn gwell addysg pe bai'n symud ysgol.
A: Mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r safonau addysgol diweddaraf sydd ar gael yn y ddogfen ymgynghori.
C: Nid yw Prestatyn a Threffynnon yn opsiynau synhwyrol i'r plant hyn. Nid yw'r ardaloedd hyn yn siwrnai 5 munud yn y car. Mae llawer o bentrefi'n gwasanaethu'r ysgol hon.
A: Nodwyd y pwynt
Diolchodd IB i bawb am eu cwestiynau a'u safbwyntiau.

YSGOL GYMRAEG MORNANT, PICTON- DIGWYDDIAD YMGYNGHORI ATHRAWON, STAFF CYMORTH A LLYWODRAETHWYR, DYDD LLUN 7 RHAGFYR 2015, 4.00 p.m.

Yn bresennol o'r Cyngor:

Y Cynghorydd Chris Bithell, Ian Budd, Damian Hughes, Claire Homard, Jeanette Rock, Jennie Williams, Sarah Thomas, Steve Gow, Meira Powell

Croesawodd IB athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr i'r cyfarfod i nodi eu pryderon a'u hofnau. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael os oedd athrawon, staff cymorth a llywodraethwyr yn dymuno siarad drwy gyfrwng y Gymraeg. Datganwyd mai pwrpas yr adolygiad oedd sicrhau bod eu pryderon yn cael eu mynegi. Cadarnhaodd IB y byddai'r cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i rannu â'r ysgol a gwneuthurwyr penderfyniadau. Mae'n gofnod cyhoeddus ac ar gael i bawb. Bydd pob barn yn cael ei rhannu ag aelodau'r Cabinet a byddant yn eu cymryd i ystyriaeth.

Bydd sesiwn Holi ac Ateb yn dilyn cyflwyniad Powerpoint byr. Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at flaenoriaethau cyllid y cyngor ar gyfer dysgwyr a diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed; gostyngiad o £52m mewn gwasanaethau cyhoeddus dros y 3 blynedd nesaf; mae ceisio rheoli cynnydd mewn cymarebau disgyblion athrawon yn flaenoriaeth; her ariannol y dyfodol y gall y gymuned gymryd rhan ynddi; her i ysgolion bach a sut y gellid eu trefnu yn y dyfodol wrth iddynt orfod rheoli adnoddau sy'n prinhau; bydd y broses derbyn disgyblion yn cynorthwyo teuluoedd i wneud eu dewisiadau; caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo drwy drefniadau pontio gyda'r ysgol hon ac ysgolion derbyn.

Roedd y cyfarfod yn broses ymgynghori ddechreuol i nodi'r materion; yr amserlen ddangosol oedd ymatebion erbyn 23 Rhagfyr 2015 gan adrodd yn ôl i Gabinet y Cyngor ym mis Chwefror 2016 a fydd yn cynnwys copïau o bob gohebiaeth gan gymuned yr ysgol yn ogystal â nodi'r materion a godwyd ac ymatebion y cyngor. Yna bydd y Cabinet yn penderfynu p'un a ydynt am gyflwyno cynnig statudol i gau neu beidio â pharhau. Bydd angen cyhoeddi gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r rhybudd statudol. Gellir cyflwyno barn a gwrthwynebiadau i'r cyngor mewn amryw o ffyrdd.

Holi ac Ateb :

Gofynnodd IB i'r mynychwyr nodi rhai rheolau sylfaenol er mwyn helpu llif y cyfarfod; osgoi torri ar draws pan fydd rhywun arall yn siarad; osgoi cael sgyrsiau ochrol sy'n tarfu a pharchu barn eich gilydd.

C: Rwyf wedi darllen y Ddogfen Ymgynghori ac roedd yn ymddangos yn rhesymol ond wrth i chi fynd trwyddi mae'n teimlo fel pe bai wedi'i hanelu at wneud i'r ysgol edrych yn ddrwg. Wyth pentref bach yng nghanol unlle y cyfeiriwch atynt fel pentrefan, teimlaf yn siomedig â thôn y ddogfen. Mae'r ddogfen wedi'i thorri a'i phastio o Ddogfennau Ymgynghori eraill y mae'r Tîm Moderneiddio Ysgolion wedi'u cynhyrchu ac nid wyf yn fodlon â safon y dystiolaeth dros gau'r ysgol. Dylai'r ddogfen fod yn fwy agored a theg. Byddai unrhyw un sy'n darllen y ddogfen yn meddwl fod yr ysgol yn dwll o le. Nid yw hyn yn wir, mae'n ysgol wych. Rwy'n deall fod angen i'r Awdurdod arbed arian, ond teimlaf y bydd cau'r ysgol yn dynged gydymffurfio. Hoffwn bwysleisio fy siom ynglŷn â dogfen ymgynghori mor wael.

A: Mae'r Ddogfen Ymgynghori wedi'i hysgrifennu yn y ffordd honno ac yn dilyn yr un arddull gan fod raid i ni ddilyn rheoliadau statudol Fframwaith 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' Llywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio peidio â defnyddio iaith emosiynol, rydym yn cadw'r dogfennau'n ffeithiol. Mae'r data a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori yn wybodaeth a ddarperir gan yr ysgol.

C: Hoffwn holi ynglŷn â phwynt ar dudalen 8 y ddogfen ymgynghori. Pam nad yw Ysgolion Cynradd Saesneg yn cael eu dangos fel ysgolion eraill? Mae'n gamarweiniol.

A: DH Er mwyn dilyn Fframwaith 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i ni gymharu ysgolion eraill o'r un dynodiad h.y. cyfrwng Cymraeg.

C: Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n creu darlun llawer gwaeth o'r ysgol na'r gwirionedd. Nid oes llawer o wahaniaeth rhyngddi a'r ysgolion eraill yr ydych wedi'u defnyddio i gymharu'r safonau addysgol. Pam fyddem yn anfon disgyblion i ysgol wael arall a pham ydych chi wedi pwysleisio fod Ysgol Gymraeg Mornant yn ysgol wael?
A: CH Dim ond gwybodaeth o adroddiad Arolwg Estyn y gallwn ei gynnwys. Mae holl Adroddiadau Estyn ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Mae Estyn yn ymgynghorai statudol. Dyfarnodd Estyn fod Ysgol Gymraeg Mornant yn y categori 'Camau Dilynol'. Mae'r ysgol yn gweithio'n galed iawn i gael ei hun allan o'r categori hwn.
C: Mae llawer o ysgolion eraill fel Ysgol Gymraeg Mornant. Pam Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac nid Ysgol Cyfrwng Saesneg?
A: CH Mae Ysgolion Cynradd Cyfrwng Saesneg yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd hefyd.
C: Gan fod Ysgol Gymraeg Mornant yn ysgol fach gall y data godi a gostwng. Yn arbennig os oes gan yr ysgol lefel uchel o Anghenion Dysgu Ychwanegol.
A: Estyn yw arolygwyr annibynnol Cymru ac maent yn cymryd ysgolion bach i ystyriaeth.
C: Mae Safonau Estyn wedi newid
A: Nid oes unrhyw newid wedi bod yn Fframwaith Estyn ers 2010.
C: Mae'r Data ac Adroddiad Estyn yn hen. Onid ydych yn meddwl fod gwybodaeth Ysgol Gwenffrwd yn hen gan ei fod yn 5 oed?
A: CH. Na. Cynhelir Arolygon Estyn bob 6 mlynedd. Nid Estyn yw'r unig ffynhonnell ddata yn y ddogfen ymgynghori, rydym hefyd yn defnyddio trefn gategoreiddio Fy Ysgol Leol. Deallwn fod pawb yn teimlo fod yr adroddiad yn bersonol, ond allwn i ond defnyddio'r data sydd ar gael.
C: Onid ydych yn meddwl bod angen ysgol Cyfrwng Cymraeg yn yr Ardal hon? Beth fyddai'n denu mwy o deuluoedd i'r ysgol hon? Pam nad ydych wedi hyrwyddo'r cyfleuster fel yr un yng Nglannau Dyfrdwy. Rwy'n siŵr y byddech yn cael mwy o deuluoedd pe baech wedi.
A: Mae'r toriadau'n creu anawsterau i'r Awdurdod ac ni allwn gynnal rhai ysgolion llai. Yn amlwg, nid yw hon yn sefyllfa y mae unrhyw un ohonom eisiau bod ynddi, ond mae'r Awdurdod yn edrych ar hyn ar draws Sir y Fflint i gyd.
C: Onid yw'r cynnig hwn yn mynd yn erbyn Polisi Iaith Gymraeg Sir y Fflint?
A: Mae poblogaeth uchel o ddisgyblion yn dewis peidio â mynychu ysgol Cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon.
C: Mae'n bosibl na fydd brodyr a chwiorydd yn llwyddo i gael lle mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn y dyfodol?
A: Mae Polisi Derbyn Disgyblion Sir Ddinbych yr un fath ag un Sir y Fflint.
C. Mae cludiant yn broblem. Costau cludo disgyblion a hyd y siwrnai i Brestatyn neu Dreffynnon. Ni fydd plant 4 oed yn mynd ar fws am 7.30am. Byddai'n haws mynychu ysgol leol cyfrwng Saesneg.
A: Byddai cludiant yn cael ei ddarparu ar sail Polisi Cludiant Sir y Fflint. Byddai nifer o ddisgyblion yn cael cludiant am ddim i'w hysgol agosaf pe tybir fod y ffordd yn un beryglus. Nid yw darparu cludiant i ddisgyblion ar gyfer addysg cyn oed ysgol yn orfodol.
C: Sut fydd disgyblion yn cyrraedd clwb brecwast / clwb ar ôl ysgol neu weithgareddau allgwricwlaidd?
A: Dim ond i fynychu addysg statudol y darperir cludiant i ddisgyblion, nid gweithgareddau allgwricwlaidd.
C: Mae'r Ddogfen Ymgynghori wedi modelu cludiant ar y sail fod pob disgybl yn mynychu Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon. Bydd ein hymateb yn seiliedig ar 90% o'r disgyblion yn mynd i Brestatyn. Hoffem weithio gyda'r Awdurdod i achub ein hysgol, gwella ei chategori ac edrych ar y posibilrwydd o Ffedereiddio.
A: Rydym mewn sefyllfa heriol o ystyried lefelau'r toriadau ariannol. Os gellir nodi unrhyw beth e.e. ffedereiddio, bydd angen gwybodaeth fanwl arnom ynglŷn â sut y bydd hyn yn gweithio.
C: Byddem yn fodlon rhannu cludiant gydag Ysgol Bryn Garth, Ffynnongroew. Byddai costau cludo disgyblion i Sir Ddinbych yn gwrthbwyso'r arbedion.

A: Cyn dod i unrhyw benderfyniad am y cynnig, bydd angen i ni fod yn hyderus â'n costau/arbedion.
C: Beth fydd yn digwydd i'n swyddi?
A: Bydd Adnoddau Dynol yn gweithio gyda chyflogwyr ar unrhyw broblemau AD a bydd yn hapus i drafod unrhyw bryderon unigol. Os ydych mewn perygl, byddem yn gofyn i Gyrff Llywodraethu warantu cyfweliad i chi o leiaf pe bai swyddi'n codi mewn ysgolion eraill.
C: A yw Sir y Fflint yn cefnogi Eisteddfod 2016?
A: Ydy
C: Mewn ysgolion llai mae gennych fwy o amser i'w dreulio gyda'r plant. Mewn ysgolion mwy mae'r disgyblion yn cael eu gwthio i un ochr ac nid ydynt yn cael y sylw sydd ei angen arnynt.
A: Nid yw ysgolion mwy yn wael. Mewn rhai achosion mae disgyblion yn cael mynediad at fwy o adnoddau ac yn gallu darparu mwy o gymorth.
C: Bydd y disgyblion yn drist iawn os bydd raid iddynt adael yr ysgol.
A: Mae gennym gyfrifoldeb i ddarparu cyfnod pontio esmwyth i'r disgyblion a'r staff.
C: Ydych chi wedi ymgynghori â'r gymuned ehangach?
A: Fel rhan o'r 'Cod Trefniadaeth Ysgolion' mae rhestr Ymgynghori Statudol sy'n cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Llywodraethwyr ysgolion yn yr ardal o'r un enwad.
C: A fyddech yn ystyried cyfarfod cymunedol?
A: Nid oes disgwyl i ni gynnal cyfarfodydd â'r gymuned. Gallant roi eu barn drwy lenwi holiadur ar-lein neu drwy anfon e-bost / ysgrifennu at y tîm moderneiddio ysgolion.
Q: Rwy'n poeni am yr ymrwymiad i'r iaith Gymraeg?
A: Rydym yn croesawu gwybodaeth gan unrhyw un. Rydym wedi derbyn negeseuon e-bost yn cefnogi'r ysgol o wledydd mor bell â Chanada. Dylid annog cymorth gan y Fenter Iaith (cynhelir bore coffi yn yr ysgol yfory). Mae angen Cynllun Gweithredu ar gyfer yr ysgol, yn yr arolwg ORS diwethaf, gwelwyd galw yn ardal Shotton, ac o ganlyniad agorwyd ysgol cyfrwng Cymraeg Croes Atti ar safle Glannau Dyfrdwy.
C: Symudodd TWF i Sir y Fflint yn ddiweddar ond dim ond yn ardal yr Wyddgrug a Threffynnon, nid oes ganddynt gyllid i ddod i lawr i ardal Gwespyr Picton. Byddai TWF yn gwella cymorth yn yr ardal.
A: Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ysgrifennaf at TWF yn gofyn iddynt gefnogi gwaith mewn ardaloedd gwledig. Nid penderfyniad yr Awdurdod oedd peidio â mynd i ardal Gwespyr.
C: Mae'r ysgol wedi derbyn llythyr ynglŷn â digwyddiad yr URDD, gydag ymarferion yn yr Wyddgrug ar gyfer yr Eisteddfod sydd ar y gorwel. Hoffwn sôn am y broblem o deithio i ochr arall yr Awdurdod. Bydd yr ysgol yn anfon llythyr at yr Awdurdod.
A: Bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r Urdd ac yn holi ynglŷn â phroblemau cludiant.
C: Pa ganran o ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn Sir y Fflint?
A: Mae 7.4% o ysgolion cynradd Sir y Fflint yn rhai cyfrwng Cymraeg. Mae 8.3% o ysgolion uwchradd Sir y Fflint yn rhai cyfrwng Cymraeg.

ATODIAD C

Ymgynghori â Chyngor Ysgol Mornant

Crynodeb

1. **(a) Beth ydych chi'n ei hoffi am eich ysgol?** *What do you like about your school* **(b) Beth hoffech chi ei newid am eich ysgol?** *What would you like to change about your school?*

   Trafodwyd y cwestiwn hwn ar lafar: / *This question was discussed verbally:*

   Atebion / *Answers* **(a)**

- **Mwy o siawns i chi chwarae pêl-droed**
- *More chance for you to play football*
- **Pawb yn edrych allan am ei gilydd**
- *Everyone looks out for each other*
- **Pawb yn adnabod ei gilydd**
- *Everyone knows each other*
- **Ffrindiau**
- *Friends*
- **Llawer o goed a phlanhigion o gwmpas**
- *Lots of trees and plants around*
- **Llwyth o le – cae a choedwig**
- *Lots of room – field and forest*
- **Plant yn chwarae'n neis**
- *Children play nicely*
- **Iaith Gymraeg**
- *Welsh language*
- **Ysgol unigryw**
- *Unique school*
- **Mae pawb fel teulu**
- *Everyone is like a family*
- **Mae yna olygfa dda**
- *There is a good view*

Atebion / *Answers* **(b)**

- **Mwy o blant**
- *More children*

2. **Sut byddech chi'n teimlo petai Ysgol Mornant yn cau?** *How would you feel if Ysgol Mornant were to close?*

Isod mae'r ymatebion a ddisgrifir ar y nodiadau 'post-it' / *Below are the responses as described on the post-it notes*:

Thema	Ymatebion	Nifer yr Ymatebion
Blin *Angry*	• **Blin (wyneb blin)** • *Angry (angry face)* • **Blin iawn (wyneb blin)** • *Very angry (angry face)* • **Blin (wyneb blin)** • *Angry (angry face)* • **Yn flin iawn iawn iawn iawn wynebau blin)** • *Very very very very angry (angry faces)*	**4**
Trist *Sad*	• **Trist iawn. Os bydd yr ysgol yn cau byddaf yn methu fy ffrindiau a'r athrawon** • *Very sad. If the school were to close I would miss my friends and the teachers* • **Trist iawn (wynebau trist)** • *Very sad (sad faces)* • **Trist (wyneb trist)** • *Very sad (sad face)* • **Trist (wyneb trist)** • *Very sad (sad face)* • **Trist (wyneb trist)** • *Very sad (sad face)* • **Wynebau trist** • *Sad faces* • **Trist (wyneb trist)** • Sad (sad face) • **Byddaf yn drist os bydd Ysgol Mornant yn cau oherwydd rydw i wedi tyfu i fyny gyda phlant eraill a wedyn da ni'n mynd i ysgolion eraill a ddim yn cael gweld ei gilydd.** • *I would be sad if Ysgol Mornant were to close because I have grown up with the other children and then we go to different schools and won't see each other.* • **Trist. Dydy o ddim yn deg. Yn methu ffrindiau. Methu'r ysgol. Yn teimlo'n unig. Ddim yn adnabod y bobl yn yr ysgol newydd. Ddim yn adnabod yr athrawon i gyd.**	**13**

	• *Sad. That it's not fair. Miss my friends. Miss the school. Feeling lonely. Not knowing the people in the new school. Not knowing all the teachers.* • **Byddwn i'n teimlo'n drist iawn oherwydd byddaf i'n methu fy ffrindiau a'r athrawon** • *I would feel very sad because I would miss my friends and the teachers.* • **Byddwn i yn drist os bydd Ysgol Mornant yn cau. Yn ddigalon, anhapus, digalon iawn. Byddwn yn methur athrawon. Yn unig iawn. Trist iawn heb ffrindiau (wyneb trist)** • *I would be sad if Ysgol Mornant closed. Depressed, unhappy, very depressed. I would miss the teachers. Very lonely. Sad without my friends (sad face)* • **Teimlo'n ddigalon (wyneb trist)** • *Feeling down (sad face)* • **Trist, torri calon, anhapus, unig, teimlo fel crio (wyneb trist)** • *Sad, broken hearted, unhappy, lonely, feel like I'm going to cry (sad face)*	
Anhapus *Unhappy*	• **Anhapusrwydd** • *Unhappiness* • **Anhapus** • *Unhappy*	**2**
Nerfus *Nervous*	• **Yn nerfus, ddim yn gwybod y ffordd yn yr ysgol (wynebau trist a dryslyd)** • Nervous, not knowing the way in the school (sad and confused faces) • **Nerfus mynd i le gwahanol (wyneb dryslyd)** • Nervous going somewhere different • **Nerfus i gyfarfod â phobl newydd** • Nervous to meet new people	**3**
Unig *Lonely*	• **Unig heb ffrindiau gorau (wyneb trist)** • *Lonely without bets friends* • **Unig, ddim yn adnabod neb yn yr ysgol (wyneb trist)** • *Lonely, not knowing anyone in school (sad face)* • **Unig (wyneb trist)** • *Lonley (sad face)*	**3**
Dryslyd *Confused*	• **Os fydda i'n symud ysgol byddaf i'n teimlo'n ddryslyd (wyneb dryslyd)** • *If I was moving school I would feel confused (confused face)* • **Oren (wyneb dryslyd)** • *Amber (confused face)*	**2**
Cymraeg	• **Methu'r Gymraeg**	**2**

Welsh	• *Miss the Welsh* • **Dim Cymraeg yn y ardal yma. Blin. (wyneb blin)** • *No Welsh in this area. Angry. (angry face)*	
Ffrindiau *Friends*	• **Digalon, ddim yn gallu gweld fy holl ffrindiau. Anoddach teithio i ysgolion eraill (wyneb trist)** • *Depressed. Not seeing all my friends. Harder to travel to other schools (sad face)* • **Heb ffrindiau (wynebau trist a dryslyd)** • *Without friends (sad and confused faces)* • **Mwy o blant a bydd yn anoddach cael ffrindiau (wyneb trist)** • *More children and harder to get friends (sad face)* • **Eisiau gweld fy ffrindiau yn Ysgol Mornant cyn mynd i ysgol uwchradd (wyneb trist)** • *Want to see my friends in Ysgol Mornant before I go to high school (sad face)* • **Angen gwneud ffrindau newydd (wyneb trist)** • *Need to make new friends (sad face)* • **Dechrau eto, llai o ffrindiau (wyneb trist)** • *Starting again, less friends (sad face)* • **Digalon, gwneud ffrindiau newydd, dillad ysgol newydd.** • *Depressed, making new friends, new school uniform*	**7**
Arall *Other*	• **Ddim yn hoffi meddwl fod Ysgol Mornant yn cau (wyneb trist)** • *Don't like to think about Ysgol Mornant closing (sad face)* • **Eisiau gweld y flwyddyn olaf yn Ysgol Mornant** • *Want to see the last year in Ysgol Mornant* • **Byddwn yn colli'r ardal** • *I would miss the area* • **Yn methu'r clwb brecwast (wynebau trist)** • *Missing the breakfast club (sad faces)* • **Methu'r lle** • *Miss the place* • **Byddwn yn methu'r athrawon (wyneb trist)** • *I would miss the teachers (sad face)* • **Methu'r hanes** • *Miss the history* • **Byddaf yn swil (wyneb trist)** • *I am going to be shy (sad face)* • **Wedi bod yn mynd i Ysgol Mornant o'r cychwyn (wyneb trist)** • *Have been in Ysgol Mornant from the start (sad face)*	**9**

3. **Sut fyddech chi'n teimlo am y posibilrwydd o wneud ffrindiau newydd? Isod mae'r ymatebion a ddisgrifir ar y nodiadau 'post-it'** / *Below are the responses as described on the post-it notes*:

Thema	Ymatebion	Nifer yr Ymatebion
Trist / Anhapus *Sad / unhappy*	• **Yn drist** • *Sad* • **Anhapus, Blin** • *Unhappy, angry* • **Wyneb trist** • *Sad face*	**3**
Nerfus / Swil *Shy / Nervous*	• **Nerfus a swil** • *Nervous and shy* • **Nerfus, swil** • *Nervous, shy* • **Swil, nerfus (wyneb trist)** • *Shy, nervous, (sad face)* • **Swil** • *Shy* • **Nerfus, swil, ddim yn siŵr beth i'w wneud** • *Nervous, shy, not sure what to do* • **Yn swil** • *Shy* • **Swil (wyneb trist)** • *Shy (sad face)* • **Swil!!!** • *Shy!!!* • **Rhy swil i siarad ac yn teimlo'n ddigalon gyda phawb ac ar goll hefyd (wyneb trist)** • *Too shy to talk and feeling down an lost (sad face)* • **Swil, ofnus, eisiau mynd yn ôl, ddim yn gwybod beth i'w wneud** • *Shy, frightened, want to go back, don't know what to do* • **Crynu trio ysgwyd llaw, swil** • *Shaking trying to shake hands, shy* • **Byddwn yn teimlo'n nerfus ac yn swil oherwydd dwyt ti ddim yn gwybod os ydyn nhw'n mynd i hoffi ti oherwydd faswn i'n gallu gofyn wnei di fod yn ffrind i mi a nhw'n dweud na.** • *I would feel nervous and shy because you don't know if they are going to like you because I could ask them to be my friend and they could say no.*	**12**

Unig *Lonely*	• **Unig** • *Lonely* • **Unig iawn iawn ac yn anghyfforddus ac yn drist** • *Very very lonely and uncomfortable and sad* • **Unig (wyneb trist)** • *Lonely (sad face)* • **Unig oddi wrth bawb arall yn yr ysgol ac yn drist** • *Alone from everyone else in the school and sad*	**4**
Methu Ffrindiau *Missing Friends*	• **Methu fy ffrindiau** • *Mssing my friends* • **Byddaf eisiau fy ffrindiau o Mornant** • *Like I want my friends from Mornant*	**2**
Ofnus / Anghyfforddus *Frightened / uncomfortable*	• **Ddim eisiau mynd allan oherwydd eich bod yn ofnus** • *Not wanting to go out because you're frightened* • **Ofnus** • *Frightened* • **Ofnus ac ar goll** • *Frightened and lost* • **Yn ofnus iawn iawn ac yn dechrau crio (wyneb trist)** • *Very very frightened and starting to cry (sad face)* • **Ofnus, swil a nerfus** • *Frightenened shy and nervous* • **Ofnus, anghyfforddus, beth i'w gwneud?** • *Frightened, uncomfortable, what to do?* • **Byddwn yn teimlo yn anghyfforddus hefo bod o gwmpas pobl dwi ddim yn 'nabod** • *I would feel uncomfortable being around people I don't know* • **Yn angyhfforddus, yn nerfus, ar goll, dim eisiau siarad efo nhw (wyneb trist)** • *Uncomfortable, nervous, lost, not wanting to talk with them (sad face)*	**8**
Arall / Other	• **Dipyn bach yn wyrion** • *A bit silly* • **Ar goll?** • *Lost?* • **Byddwn yn teimlo ar wahân i bawb ac ar goll oddi wrth beth maen nhw yn ei wneud a ble maen nhw wedi mynd am yr tair wythnos gyntaf.** • *I would feel separate from everyone and lost, about what they are doing and where they have gone for the first three weeks* • **Ddim yn adnabod neb neu'n gwybod beth i'w wneud gyntaf??**	**5**

	• *Not sure what to do first?* • **? beth i'w gwneud?** • *?what to do?*	

4. **Sut fyddech chi'n teimlo am y posibilrwydd o gael eich addysgu gan athrawon newydd?**

Thema	Ymatebion	Nifer yr Ymatebion
Anghyfforddus / Ofnus *Uncomfortable / Frightened*	• **Yn anghyfforddus, wedi drysu,ofnus, yn poeni (wyneb trist)** • *Uncomfortable , confused, frightened, worried (sad face)* • **Anghyfforddus (wyneb trist)** • *Uncomfortable (sad face)* • **Teimlaf yn ofnus ac yn drist ac yn anghyfforddus ac yn y lle anghywir** • *Feeling frightened and sad and uncomfortable and in the wrong place* • **Ofnus** • *Frightened* • **Ofnus oherwydd dydw i ddim yn gwybod os ydyn nhw'n fy hoffi** • *Frightened because I don't know if they like me or not* • **Ofnus, swil, anghyfforddus, dryslyd (wyneb dryslyd)** • *Frightened, shy, uncomfortable, confused (confused face)* • **Ac yn nerfus (wyneb dryslyd)** • *And nervous (confused face)* • **Ofnus, eisiau mynd i weld fy hen athrawon (wyneb dryslyd)** • *Frightened, want to go and see the old teachers (confused face)*	
Digalon *Depressed*	• ***Digalon*** • *Depressed* • ***Yn ddigalon!!!*** • *Depressed!!!* • ***Digalon*** • *Depressed*	**3**
Poeni *Worried*	• **Poeni** • *Worried*	**5**

	• **Dwi yn poeni (wyneb trist)** • *I am worried (sad face)* • **Yn poeni!!!! (wyneb trist)** • *Worried (sad face)* • **Poeni** • *Worried* • **Poeni am beth fydd ein hathrawon yn ei wneud** • *Worried about what the teachers will do*	
Trist *Sad*	• **Wynebau trist** • *Sad faces*	**6**
Athrawon *Teachers*	• ***Athrawon yn rhoi gwaith gwahanol*** • *Teachers giving different work* • ***Ofnus o athrawon (wyneb trist)*** • *Afraid of teachers (sad face)*	**2**
Dryslyd *Confused*	• ***Ddim yn gwybod beth i'w wneud*** • *Not sure what to do* • ***Ar goll*** • *Lost* • ***Dim yn gwybod beth i'w wneud oherwydd fy mod mor nerfus*** • *Not sure what to do because I'm so nervous* • ***Wedi drysu yn y lle anghywir (wyneb dryslyd)*** • *Confused in the wrong place (confused face)* • ***Wedi drysu*** • *Confused* • ***Dryslyd*** • *Confused* • ***Dryslyd (wyneb dryslyd)*** • *Confused (confused face)* • ***Dryslyd iawn, yn ofnus ac yn poeni (wyneb dryslyd)*** • *Very confused, frightened and worried (confused face)* • ***Dryslyd*** • *Mixed*	**9**
Swil *Shy*	• ***Swil!!*** • *Shy!!* • ***Swil*** • *Shy* • ***Swil, ddim yn gwybod beth i'w wneud? Wedi drysu?*** • *Shy, not sure what to do? Confused?*	**3**
Arall / *Other*	• **Beth? (wyneb dryslyd)** • *What? (confused face)* • **Hmmm? (wyneb dryslyd)**	**6**

	• *Hmmm? (confused face)* • **Ddim yn siwr** • *Not sure* • **Teimlo'n wahanol. Rheolau newydd. Ansicr i ble maen nhw wedi gofyn i mi fynd, fel lle arall yn yr ysgol. Dryslyd iawn.** • *Feeling different. New rules. Confused about where they have called me to go to, like another place in the school. Really confused.* • **Truenus** • *Pitiful* • **Teimlo fel crio** • *Feel like crying*	

5. **Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei weld yn digwydd yn lle?** *Is there anything else you would like to see happen instead?*

   Trafodwyd y cwestiwn hwn ar lafar a'r awgrymiadau oedd: / *This question was discussed verbally and the sugestions were:*

Ymatebion	Nifer y disgyblion
• ***Peidio â chau'r ysgol*** • *That the school doesn't close*	**1**
• **Peidio ag agor ysgol newydd a chau un arall** • Don't open a new school and close another	**1**
• **Gwneud mwy o ysgolion Cymraeg** • Make more Welsh schools	**1**
• ***Yn lle cau'r ysgol, gwneud newidiadau yn lle*** • *Instead of closing the school, make changes instead*	**1**

6. **Oes arnoch chi eisiau dweud unrhyw beth arall?** *Would you like to say anything else?*

- ***Bws meithrin – oedolion ar y bws gyda'r plant os nad yw'r rhieni'n gyrru***
- *Nursery bus – adults on the bus with the children if their parents don't drive*
- **Pam ydych chi'n trio cau'r ysgol? Os ydych chi'n cau'r ysgol yma byddwch chi'n gwneud ysgol mewn lle arall.**
- *Why are you trying to close the school? If you close this school you will be making a school somewhere else.*

- **Beth os oes ysgol Saesneg yn agosach nag ysgol Gymraeg?**
- *What if there is an English school nearer than a Welsh school?*
- **Beth os nad oes yna ddigon o le mewn ysgol (arall) i bawb?**
- *What if there is not enough room in another school for everyone?*
- **Beth fydd yn cael ei adeiladu yn lle'r ysgol?**
- *What will be built instead of the school?*
- **Beth os yw brawd / chwaer yn mynd i ysgol a dim lle ar eu cyfer nhw?**
- *What if a brother / sister goes to a school and there isn't enough room for them*

The School Council also prepared a supporting document when they had met prior to the consultation. This contained information about clubs, classes, sports and socializing.

Roedd Cyngor yr Ysgol wedi paratoi dogfen atodol mewn cyfarfod a gawsant cyn yr ymgynghoriad. Roedd hon yn cynnwys gwybodaeth am glybiau, dosbarthiadau, chwaraeon a chymdeithasu.

Ymgynghori â Chyngor Ysgol y Llys

Crynodeb

1. **Sut byddech chi'n teimlo petai Ysgol Mornant yn cau**? *How would you feel if Ysgol Mornant were to close?*

Isod mae'r ymatebion a ddisgrifir ar y nodiadau post-it / *Below are the responses as described on the post-it notes*:

Thema	Ymatebion	Nifer yr Ymatebion
Trist *Sad*	• **Trist achos mae na ddim yn mynd yn Ysgol Gymraeg.** • *Sad because there will not be a Welsh school.* • **Mae o'n drist oherwydd mae nhw ddim yn cael lot pres.** • *It is sad because they don't have lots of money* • **Rydw i yn teimlo yn drist fod mae ysgol Cymraeg yn cael ei cau. Achos mae'r Gymraeg i fi yn bwysig.** • *I think it is sad that a Welsh school will close. Because Welsh is important to me.* • **Achos fydd y rhieni angen symud cartrefi o Gwespyr i Prestatyn (Gwyneb trist).** • *Parents will have to move house from Gwespyr to Prestatyn (sad face).*	**4**
Hapus *Happy*	• **Dwi yn hapus achos os mae nhw yn dod da ni yn gallu cael mwy o blant**. • *I am happy because if they come here we will have more children.* • **Rydw i yn meddwl mae'r syniad digon teg. Rydw i yn hapus.** • *I think it is a fair enough reason. I am happy.*	**2**
Teimladau cymysg *Mixed feelings*	• **Rydw i yn meddwl bydd yn dda. Oherwydd wedyn bydd ysgolion eraill yn cael mwy o plant, ond mae drwg os mae rhai plant angen symud.** • *I think it will be good. Because other schools will have more children, but it's bad because some children will have to move.* • **Rydw i yn meddwl mae o'n reit da a reit ddrwg oherwydd mae'r peth da yw fydd Ysgol Mornant a Ysgol y Llys yn cael mwy o ffrindiau newydd, ac y peth drwg fydd mae'r pobl sydd yn bwy nesaf i Ysgol Mornant hefo hiraf i teithio ac dydy o ddim**	**2**

	yn deg i'r plant sydd yn hoffi Ysgol Mornant (Gwyneg trist a gwyneb hapus). • *I think it's quite good and quiet bad, because the good thing would be that Ysgol Mornant and Ysgol y Llys would have lots more friends, and the bad thing would be that the children from Ysgol Mornant would have further to travel and it's not fair on the children who like Ysgol Mornant (Sad face and a smiley face).*	
Annheg *Unfair*	• **Yn fy marn i, rydw ddim yn meddwl bod yn deg cau yr un Ysgol Cymaeg yn ei amgylchedd. Oherwydd mae yno digonedd o ysgolion Saesneg ac ddim yn cau yr ysgolion yna.** *In my opinion it is not fair to close any Welsh school in its environment, because there are plenty of English school and they are not closing those schools.*	**1**
Positif *Positive*	• **Mae o yn syniad da os mae yno dim digon o plant, ond bydd o'n syniad da os bydd yna oleiaf un Ysgol Gymraeg mewn bob tref.** *It is a good idea if there are not enough children, but it would be a good idea if there was at least one Welsh school in each town.*	**1**
Aros ar argor *Stay open*	**Dwi meddwl dyla Ysgol Mornant aros ar agor oherwydd:** *I think Ysgol Mornant should stay open because:* • **Dan ni eisiau helpu datblygu iaith Cymraeg.** • *We want to help develop the Welsh language.* • **Lot o arian rhieni yn cael ei wastio.** • *A lot of parents money would be wasted.* • **Os ydy'r ysgol ar agor wyrach fydd yna mwy o blant yn dod i'r ysgol.** • *If the school remains open maybe more children would go to the school* • **Rydym eisiau ddatblygu y iaith Cymraeg mae hun yn Cymru.** • *We want to develop the Welsh language that's in Wales.*	**1**
Arall *Other*	• **Achos dwi'n mynd i tŷ Dad.** • *Because I go to my Dad's house.* • **Mae ffrind fy Mam yna.** • *My Mum's friend is there.* • **Dwi yn meddwl bod na bod Ysgol Gymraeg yn pop pentre, dim ots os mae o yn pentre fach.** • *I think there should be a Welsh school in each village, it doesn't matter if it is a small village.*	**3**

2. **Sut byddech chi'n teimlo am ddisgyblion newydd yn cychwyn yn Ysgol y Llys?** *How would you feel about new pupils starting at Ysgol y Llys?*

Isod mae'r ymatebion a ddisgrifir ar y nodiadau post-it */ Below are the responses as described on the post-it notes*:

Thema	Ymatebion	Nifer yr Ymatebion
Hapus *Happy*	• **Dwi'n teimlo yn hapus i cael mwy o ffrindiau.** • *I am happy to have more friends.* • **Hapus achos a ni yn cael mwy o ffrindiau a dwi ddm yn cael lot o ffrindiau.** • *I am happy because will have more friends and I don't lots of friends.* • **Rydw i yn hapus achos rydw i ddim yn cael lot o ffrindiau.** • *I am happy because I don't have lots of friends.* • **Rydw i yn mynd i bod yn hapus. Os ydy Ysgol Mornant yn cau fydd plant bach newydd yn dod i cyfarfod plant rydym ni ddim yn gwybod.** • *I am going to be happy. If Ysgol Mornant closes then we will meet new children that we don't know.* • **Dwi'n hapus oherwydd mae rhai o plant gallu cael mwy o ffrindiau.** • *I am happy because other children can have more friends too.* • **Fysa i yn teimlo'n hapus ond rydw i yn dipyn y shy felly fysa i hyn hoffi o ond rydw i ddim yn reit dda am gwneud ffrindiau.** • *I would feel happy, but I am a little bit shy but I am quiet good at making new friends.* • **Mi fydda i yn teimlo'n hapus oherwydd mae'n neis gwneud ffrindiau newydd.** • *I will feel quite happy because it's nice making new friends.*	**7**
Anghyfforddus *Uncomfortable*	• **Bydd o'n teimlo'n anghyfforddus oherwydd mae yna ddim lot o amser i wneud ffrindiau hefo nhw.** • *It will feel uncomfortable because there is not a lot of time to make new friends with them.* • **Wyrach fydd plant Ysgol Mornant yn teimlo'n amghyfforddus i wneud ffrindiau newydd a dod i ysgol newydd.**	**2**

	• *Maybe the children from Ysgol Mornant will feel uncomfortable making new friends and coming to a new school.*	
Trist *Sad*	• **Rydw i yn meddwl bod o yn drist i'r plant achos mae nhw angen gwneud ffrindiau a wyrach yr ffrindiau gorau nhw yn mynd i ysgol arall.** • *I think it is sad for the children because they will need to make friends and maybe some of their best friends will be going to other schools.*	**1**
Arall *Other*	• **Achos os mae nhw'n dawel yna mae nhw ddim yn ffrind fi.** • *Because if they are quiet then they won't be my friend.* • **Mi fyddaf i hyn hoffi gael ffrindiau newydd, mi fyddaf yn iawn gyda hynny ond rydw dal ddim eisiau cau ysgol.** • *I will like having new friends, I will be fine with that but I still don't want the school to close.* • **I gwybod gemau newydd a ffrindiau newydd hefyd.** • *To learn new games and make new friends too.* • **Rydw i eisiau ffrindiau newydd ond oes na le yn y stafell cinio?** • *I want new friends, but it there room in the canteen?*	**4**

3. **Oes unrhyw beth arall yr hoffet chi ei weld yn digwydd yn lle?** *Is there anything else you would like to see happen instead?*

   Trafodwyd y cwestiwn hwn ar lafar a'r awgrymiadau oedd: *I This question was discussed verbally and the sugestions were:*

Ymatebion	Nifer y disgyblion
• **Yn Ysgol y Llys mae rhai blynyddoedd yn rhannu dosbarthiadau, oes modd gwneud yr un peth yn Ysgol Mornant?** • *In Ysgol y Llys some years share classes, is it possible to do the same in Ysgol Mornant?*	**1**
• **Ar ddiwrnod cyntaf y plant newydd yn Ysgol y Llys, dangos nhw ogwmpas yr ysgol.** • *On their first day at Ysgol y Llys the new children could be shown around the school.*	**1**
• **Codi arian cyn cau'r ysgol.** • *Raise money for the school before closing it.*	**1**
• **Cael mwy o blant i'r ysgol, gwneud gwefan am yr ysgol.** • *Get more children to the school by doing a website.*	**1**

4. **Oes arnoch chi eisiau dweud unrhyw beth arall?** *Would you like to say anything else?*

- **Ydy'r plant yn hapus yn mynd i Ysgol Mornant?**
- *Are the children happy going to Ysgol Mornant?*

- **Mae yno lawer o ysgolion Saesneg yng Nghymru, pam cau Ysgol Gymraeg?**
- *There are plenty of English schools in Wales, why close a Welsh school.*

- **Oes yna ysgol arall yn Picton?**
- *Is there another school in Picton?*

- **Be fyddan nhw gwneud gyda'r adailad?**
- *What will they do with the building?*

CYNGOR YSGOL - YSGOL GYMRAEG GWENFFRWD	Dyddiad : 4/12/15

Presennol	Cian, Phoebe, Mia, Erin, Liam, Emily, Mr Evans
Absennol	Ioan

Trafod:

Dogfen Ymgynghori – Ysgol Gymraeg Mornant, Picton
Fersiwn i'r plant 2015

Cyflwynodd Mr Evans y llyfryn.
Trafodwyd y tudalennau canlynol,
Pwy ydym ni?
Ein nodau
Newidiadau
Beth mae hyn yn ei olygu?
Beth fyddai'n newid?
Pa mor hir fydd pethau'n cymryd?

Ymateb:

Mia – Bydd hyn yn cael effaith mawr ar blant bl 5 ac iau yn Ysgol Mornant.
Erin – Pam gwneud ffasiwn beth, os ydyn nhw yn cau Ysgol Mornant rwan pwy fydden nhw yn cau nesaf. Fyswn i yn teimlo yn ansicr ac anhapus iawn os fyswn ni yn Ysgol Mornant.
Phoebe – Mae fy nghefnither i yn Ysgol Mornant ac mae hi yn teimlo fel yna.
Mia – mae'n dweud ar y dudalen 'pa mor hir fydd pethau'n cymryd' bod unrhyw newid yn cychwyn ym Medi 2016, sydd yn sydyn iawn. Dyw hi ddim yn deg gorfod symud i ysgol arall ac yn enwedig yn Sir Ddinbych. Mae'n dweud fe fyddi di'n mynd i ysgol ger dy gartref.

Rydyn ni angen gymaint o blant a phosib yn ysgolion Cymraeg Sir y Fflint.
Liam – Pam ddim helpu nhw drwy adeiladu adeilad newydd os nad yw adeilad yr ysgol yn ddigon diogel a chryf. Rhaid i'r Cynghorwyr helpu'r ysgol. Bydd gwario arian ar Ysgol Mornant yn fwy teg gan bod Ysgol Mornant yn Ysgol Gymraeg.
Cian – Rydyn ni angen cadw'r iaith yn fyw, dim ond 5 Ysgol Gymraeg sydd yma yn barod. A beth am yr Urdd, fydd hi'n od iawn cystadlu heb Ysgol Mornant.
Erin – Mae Eisteddfod yr Urdd yn Sir Fflint blwyddyn yma hefyd. Dyle Cynghorwyr helpu'r ysgol nid cau ef.

Mi fydden ni fel aelodau Cyngor Ysgol Gwenffrwd yn anhapus iawn pe bai Ysgol Mornant yn cau. Mi rydyn ni yn gwrthwynebu.

Cwestiynau:

Cian – Bydd plant Ysgol Mornant yn mynd i Ysgol Gymraeg arall neu i Ysgol Saesneg yn Picton?
Erin - Bydd y rhieni yn gorfod gyrru nhw i ysgol arall neu bydd bws ar gael?
Mia – Beth fydd yn digwydd i'r athrawon?

ATODIAD D

Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr o 31 Awst 2016 ymlaen
Cyfarfod â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion a effeithir
25 Tachwedd 2015 am 10.00 a.m. yn Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon

Yn bresennol:-
Damian Hughes, Uwch Reolwr Cynllunio a Darparu Lleoedd Ysgol
Jennie Williams, Swyddog Prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif
Iola Owen, Pennaeth, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon
Andrew Evans, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon
Howard Jones, Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol Gwenffrwdd, Treffynnon
Yr Athro Robert Moore, Llywodraethwr
Sue Roberts, Clerc y Llywodraethwyr

		CAMAU GWEITHREDU
1.	**Ymddiheuriadau** Dim	
2.	**Cyflwyniad a Chroeso** Croesawodd DH y grŵp a dywedodd y bydd yn cael cyfarfod â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol cyfrwng Cymraeg arall a effeithir (Ysgol Y Llys, Prestatyn).	
3.	**Moderneiddio Ysgolion** Dywedodd DH fod Cabinet Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ddiwygiedig ym mis Ionawr 2015. Mae'r ddogfen hon ar gael ar www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion Yn unol â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, mae gofyn i ni: • Sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ac o safon uchel • Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion • Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir • Mynd i'r afael ag adeiladau ysgolion anghynaliadwy a seilwaith ategol • Cydnabod fod gwneud dim byd yn mynd i arwain at gymarebau disgyblion athrawon uwch wrth i gyllid ostwng • Sichrau'n bod yn cynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Yn ôl CYBLD mis Ionawr 2015, mae 17.15% o leoedd heb eu llenwi yn y portffolio ysgolion cynradd, er mai'r targed cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw gostwng y lefel hon yn is na 10%.	

4.	**Dogfennau Ymgynghori** Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015 a daw i ben ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015 ynglŷn â'r 'Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016 ymlaen gan drosglwyddo'r disgyblion i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol ynghyd ag Asesiadau Effaith ategol (Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Drafnidiaeth ac Asesiad o Effaith ar y Gymuned) a dogfen ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u cynhyrchu ac ar gael i'w darllen naill ai ar-lein ar www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion neu mae copïau papur ar gael drwy naill ai e-bostio 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352 704134. Mae mwyafrif y data yn y ddogfen yn seiliedig ar adroddiadau gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol (h.y. CYBLD; Fy Ysgol Leol ac ati) Cadarnhaodd yr Ysgol y ffeithiau canlynol: • Derbyniodd yr ysgol gopi o'r e-bost gan yr Uned Moderneiddio Ysgolion ar 11 Tachwedd 2015 am 13.05, yn gofyn i'r ysgol dynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen i'r dogfennau ymgynghori • Dosbarthodd y Tîm Moderneiddio Ysgolion bum copi papur o'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Drafnidiaeth a'r Ddogfen i Blant a Phobl Ifanc â llaw ar 12 Tachwedd 2015 ac maent ar gael i'w gweld yn nerbynfa'r ysgol ar gyfer Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni. Arwyddwyd y rhain gan aelod o staff yn yr ysgol dan sylw pan gawsant eu dosbarthu. • Y fformat a ddefnyddiwyd i dynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen. Cadarnhaodd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon eu bod wedi derbyn y dogfennau ac wedi tynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen.	

	Yn unol â phroses ymgynghori'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mae gofyn i'r Awdurdod ymgynghori â Chynghorau'r Ysgolion a effeithir. Caiff holl adborth yr ymgynghoriad ei goladu a ffurfio rhan o'r adroddiad ymgynghori a gaiff ei ystyried gan y Cabinet, a fydd yn penderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig.	
5.	**Amserlen ddiwygiedig** Dosbarthodd DH gopi o amserlen ddisgwyliedig y Cynigion Statudol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr gan ddangos y prif gerrig milltir.	
6.	**Gweithredu gan Benaethiaid / Llywodraethwyr** Fel ysgol gynradd a effeithir gan y cynnig, byddai'r Awdurdod yn gobeithio derbyn ymateb gan y Llywodraethwyr.	
7.	**Pryderon / Adborth / Cwestiynau** Teimlai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon y dylent fod wedi bod yn rhan o ymgynghoriad ynglŷn â'r cynnig cyn i'r ddogfen ymgynghori gael ei gwneud yn gyhoeddus. Teimlai Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon nad oeddent wedi cael eu trin â pharch a bod y sefyllfa'n warthus. Dywedodd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon bod clywed am y cynnig i gau ysgol cyfrwng Cymraeg a gweld bod eu hysgol wedi'i chrybwyll yn y ddogfen wedi bod yn sioc mawr iddynt. Nododd DH ei bod yn brotocol arferol i ysgolion gael gwybod am unrhyw gynigion sy'n effeithio arnynt cyn i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi. Wrth edrych yn ôl, cadarnhaodd DH y dylai hyn fod wedi digwydd. Cadarnhaodd DH y gallai unrhyw randdeiliaid roi sylwadau ar y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cadarnhaodd DH mai dyna oedd pwrpas y cyfarfod gyda'r ysgol hon heddiw. Cadarnhaodd DH bod enwi a chymharu'r ysgolion eraill yn ofyn statudol. Cadarnhaodd DH fod y Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd hefyd wedi cael gwybod enwau'r ysgolion a fyddai'n cael eu hadolygu yn ôl yn yr haf. Dywedodd un llywodraethwr bod angen adolygu'r Asesiad o Effaith	

	ar Gydraddoldeb (EIA) gan ei fod yn annigonol ac anghymwys. Ychwanegodd y dylai ymgynghoriad â rhanddeiliaid fod wedi'i gwblhau. Cadarnhaodd DH / JW fod y wybodaeth EIA wedi'i thrafod â'r grŵp EIA Corfforaethol ar y cyd â Fiona Mocko. Cadarnhaodd DH fod y ddogfen ar ei chanol ac yn fyw a'i fod yn croesawu adborth. Yr opsiynau ar gyfer yr ysgol a drafodwyd gyda'r grŵp oedd: • Cynnal Status Quo (cadarnhaodd Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Gwenffrwd mai dyma'u hopsiwn dewisedig ar gyfer Ysgol Mornant) • Ffederasiwn (cadarnhaodd Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Gwenffrwd na fyddent yn cefnogi hyn oherwydd y pellter o 6 milltir) • Ysgol Dwy Ffrwd cyfrwng Cymraeg a Saesneg ar un safle (cadarnhaodd Pennaeth a Llywodraethwyr Ysgol Gwenffrwd na fyddent yn cefnogi hyn) Cadarnhaodd Ysgol Gwenffrwdd nad oedd yn siarad o blaid Ffederasiwn rhyngddyn nhw ac Ysgol Gymraeg Mornant. Esboniodd DH fod Ffederasiwn wedi bod yn rym y gall Llywodraethwyr ei ddefnyddio ers 2010. Dywedodd y Pennaeth fod gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Dywedodd y Pennaeth ei bod wedi teimlo fel pe bai ar ei phen ei hun yn y fforwm cyllideb wrth geisio cael pobl eraill i ddeall bod angen buddsoddi mwy yn y sector cyfrwng Cymraeg ac y dylai hynny ddigwydd. Cadarnhaodd y Pennaeth fod yr ysgol a'i llywodraethwyr yn credu nad oedd y cynnig yn darparu cyfle cyfartal ac na fyddai llawer o ddisgyblion yn barod i deithio i'r ysgol cyfrwng Cymraeg arall, yn enwedig disgyblion iau. Dywedodd y Pennaeth bod llawer o Swyddogion yn y Cyngor wedi gadael ers 2011 a bod diffyg mewnwelediad cyffredinol i addysg cyfrwng Cymraeg, a'r gwaith sy'n ofynnol i addysgu disgyblion yn y system cyfrwng Cymraeg sy'n ddwbl y gwaith. Dywedodd y Pennaeth nad oes llawer o weledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd y Pennaeth a oedd unrhyw un o'r gwneuthurwyr penderfyniadau wedi bod drwy'r system addysg Gymraeg? Nododd DH y gellid trefnu cyn-gyfarfod ag aelodau pe bai'r ysgol yn dymuno. Dywedodd y Pennaeth fod pryder mawr y byddai plant yn cael eu colli o'r system addysg cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Dirprwy Bennaeth, pe bai gan yr Awdurdod Lleol weledigaeth ar gyfer	

	addysg cyfrwng Cymraeg, y byddai'n cefnogi pob ysgol cyfrwng Cymraeg yn y sir. Cadarnhaodd DH na fyddai'r Awdurdod Lleol yn sefyll yn ffordd rhieni sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion Ysgol Mornant petai'r ysgol yn cau. Cadarnhaodd DH fod hyn yn cynnwys yr ysgol cyfrwng Cymraeg dros y ffin yn Sir Ddinbych, gan ei bod yn agosach yn ddaearyddol at Ysgol Mornant. Cadarnhaodd DH y byddai cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion o dan y polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol a fyddai'n cael ei drefnu yn unol â'r mesurau teithio darbodus. Tynnodd Clerc y Llywodraethwyr sylw at bryder ynglŷn â dilysrwydd cludo plant meithrin, a gofynnodd a fyddai oedolyn yn eu goruchwylio? Cadarnhaodd DH bod cludiant o'r cartref i'r ysgol yn berthnasol i blant oedran ysgol statudol yn unig. Gofynnodd y Pennaeth pa fforwm y byddai angen iddynt ei fynychu i ddarparu eu sylwadau am y cynnig. Cadarnhaodd DH y byddai canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ddarparu i'r Cabinet ac yn y Pwyllgor Craffu. Cadarnhaodd DH bod unrhyw fath o ohebiaeth yn cael ei derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori, gellid darparu adborth drwy'r arolwg *Survey Monkey*, negeseuon e-bost, llythyrau etc. Dywedodd y Pennaeth nad oedd gwybodaeth ffeithiol gywir yn bodoli am y grwpiau oedran a addysgir mewn grwpiau oedran unigol a gofynnodd o ble ddaeth y wybodaeth, gan ddweud fod y ddogfen yn gamarweiniol. Cadarnhaodd DH fod y wybodaeth hon wedi'i chael drwy'r ysgol. Dywedodd y Pennaeth nad oedd y newidiadau capasiti ar gyfer Ysgol Mornant wedi'u haddasu a bod hynny, o ganlyniad, yn edrych yn well i'r Awdurdod Lleol. Cadarnhaodd DH fod capasiti'r ysgol yn cael ei gyfrifo drwy ganllawiau 'Mesur Capasiti yng Nghymru'. Cadarnhaodd y Pennaeth ei bod wedi cael nifer o gyfarfodydd â'r Rheolwr Gwaith Cyfalaf a'i dîm a chredai na fyddai'r ysgol yn gallu darparu ar gyfer nifer y disgyblion a nodwyd yn unol â chapasiti'r ysgol. Dywedodd Llywodraethwr fod problemau hygyrchedd wedi bod yn gysylltiedig â safle'r ysgol hon ers 10 mlynedd. Cadarnhaodd y Pennaeth fod lifftiau'n arfer bod yn yr ysgol a oedd wedi'u gosod yn wreiddiol gan yr Awdurdod Lleol ond bod Swyddog Iechyd a Diogelwch ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn gwrthod eu comisiynu bellach. Soniodd y Pennaeth am drafodaethau â Claire Homard a'r CSCA, a bod Cyngor Sir y Fflint ar waelod y tabl.	

	Dywedodd y Pennaeth bod hyn wedi bod yn syndod llethol iddynt a bod y ddogfen wedi ei brawychu a'i bod yn teimlo sarhad personol. Ychwanegodd bod raid iddi weithio gyda Phennaeth presennol Ysgol Mornant. Cadarnhaodd DH fod enwi a chymharu'r ysgolion eraill yn ofyn statudol o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cadarnhaodd DH fod y fforwm penaethiaid cynradd hefyd wedi cael gwybod enwau'r ysgolion dan sylw.	

Diwedd y Cyfarfod

Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr o 31 Awst 2016 ymlaen
Cyfarfod â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgolion Cynradd a effeithir
11 Rhagfyr 2015 am 9.00 a.m. yn Ysgol y Llys, Prestatyn

Yn bresennol:-
Damian Hughes, Uwch Reolwr Cynllunio a Darparu Lleoedd Ysgol, Cyngor Sir y Fflint
Dyfan Phillips, Pennaeth, Ysgol y Llys, Prestatyn
Parchedig B H Jones, Cadeirydd Llywodraethwyr, Ysgol y Llys, Prestatyn
James Curran, Rheolwr Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir Ddinbych

		CAMAU GWEITHREDU
1.	**Ymddiheuriadau** Dim	
2.	**Cyflwyniad a Chroeso** Croesawodd DH y grŵp a dywedodd ei fod wedi cyfarfod â Phennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol Gymraeg arall a effeithir (Ysgol Gwenffwdd, Treffynnon).	
3.	**Moderneiddio Ysgolion** Dywedodd DH fod Cabinet Cyngor Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ddiwygiedig ym mis Ionawr 2015. Mae'r ddogfen hon ar gael ar www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion Yn unol â'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, mae gofyn i ni: • Sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy ac o safon uchel • Gwella safon adeiladau a chyfleusterau ysgolion • Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir, yn y lleoliadau cywir • Mynd i'r afael ag adeiladau ysgolion anghynaliadwy a seilwaith ategol • Cydnabod fod gwneud dim byd yn mynd i arwain at gymarebau disgyblion athrawon uwch wrth i gyllid ostwng • Sichrau'n bod yn cynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Yn ôl CYBLD mis Ionawr 2015, mae 17.15% o leoedd heb eu llenwi yn y portffolio ysgolion cynradd, er mai'r targed cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yw gostwng y lefel hon id an 10%.	

DRAFT

4.	**Dogfennau Ymgynghori** Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ffurfiol ddydd Mercher 11 Tachwedd 2015 a daw i ben ddydd Mercher 23 Rhagfyr 2015 ynglŷn â'r 'Cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr (Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg) o 31 Awst 2016 ymlaen gan drosglwyddo'r disgyblion i ysgolion eraill yn yr ardal leol yn amodol ar ddewis y rhieni. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol ynghyd ag Asesiadau Effaith ategol (Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Drafnidiaeth ac Asesiad o Effaith ar y Gymuned) a dogfen ar gyfer plant a phobl ifanc wedi'u cynhyrchu ac ar gael i'w darllen naill ai ar-lein ar www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion neu mae copïau papur ar gael drwy naill ai e-bostio 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk neu ffonio 01352 704134. Mae mwyafrif y data yn y ddogfen yn seiliedig ar adroddiadau gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol (h.y. CYBLD; Fy Ysgol Leol ac ati) Cadarnhaodd yr Ysgol y ffeithiau canlynol: • Derbyniodd yr ysgol gopi o'r e-bost gan yr Uned Moderneiddio Ysgolion ar 11 Tachwedd 2015 am 13.05, yn gofyn i'r ysgol dynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen i'r dogfennau ymgynghori • Dosbarthodd y Tîm Moderneiddio Ysgolion bum copi papur o'r Ddogfen Ymgynghori Ffurfiol, Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, Asesiad o Effaith ar Drafnidiaeth a'r Ddogfen i Blant a Phobl Ifanc â llaw ar 12 Tachwedd 2015 ac maent ar gael i'w gweld yn nerbynfa'r ysgol ar gyfer Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni. Arwyddwyd y rhain gan aelod o staff yn yr ysgol dan sylw pan gawsant eu dosbarthu. • Y fformat a ddefnyddiwyd i dynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen. Cadarnhaodd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon eu bod wedi derbyn y dogfennau ac wedi tynnu sylw Rhieni / Gofalwyr / Gwarcheidwaid / Disgyblion / Cyngor Ysgol / Llywodraethwyr / Aelodau o Staff a Darpar Rieni at y ddolen.	

DRAFT

	Yn unol â phroses ymgynghori'r Cod Trefniadaeth Ysgolion mae gofyn i'r Awdurdod ymgynghori â Chynghorau'r Ysgolion a effeithir. Digwyddodd hyn ar 23 Tachwedd 2015 am 9.00 a.m. Caiff holl adborth yr ymgynghoriad ei goladu a ffurfio rhan o'r adroddiad ymgynghori a gaiff ei ystyried gan y Cabinet, a fydd yn penderfynu p'un a ddylid mynd ymlaen â'r cynnig.	
5.	**Amserlen ddiwygiedig** Dosbarthodd DH gopi o amserlen ddisgwyliedig y Cynigion Statudol yn Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr gan ddangos y prif gerrig milltir.	
6.	**Gweithredu gan Benaethiaid / Llywodraethwyr** Fel ysgol gynradd a effeithir gan y cynnig, byddai'r Awdurdod yn gobeithio derbyn ymateb gan y Llywodraethwyr.	
7.	**Pryderon / Adborth / Cwestiynau** Roedd y Pennaeth yn dymuno cofnodi nad oedd unrhyw un a gyflogir yn Ysgol y Llys wedi awgrymu naill ai fod yr ysgol yn llawn neu na fyddai croeso i ddisgyblion o Ysgol Mornant pe bai'n cau. Pe bai Ysgol Mornant yn cau, roeddent yn pryderu y gallai rhai rhieni ddewis anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Saesneg yn hytrach nag ysgol Gymraeg arall gan eu bod yn agosach.	

Diwedd y cyfarfod

DRAFT

ATODIAD E

ATODIAD E

Crynodeb o faterion ac ymatebion

Effaith ar Ddiwylliant Cymraeg (Iaith Gymraeg, Cymuned a Darpariaeth Addysg Gymraeg)

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Pryder dros yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn Sir y Fflint. • Pryder dros leihau addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. • Pryder dros yr effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal. • Pryder am leihau nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal ac yng Nghymru. • Pryder y byddai llai o siaradwyr Cymraeg yn mynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. • Ni ddylai'r Cyngor fod yn ystyried cau unrhyw ysgolion cyfrwng Cymraeg. • Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymweld â Sir y Fflint eleni ac mae'n edrych yn wael iawn bod ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ei chau, ac yn adlewyrchu'n wael ar y Cyngor. • Bydd llawer o rieni yn dewis addysg cyfrwng Saesneg oherwydd lleoliad yr ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill a chyfleustra pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau. • Mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio ar Ysgol Maes Garmon. • Mae Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Mornant wedi cynnal arolwg o safbwyntiau rhieni/gwarcheidwaid ac maent yn credu y byddai 50% yn trosglwyddo eu plentyn/plant i ysgol cyfrwng Cymraeg, pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, a byddai'r 50% sy'n weddill yn trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg. • Mae % uwch o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal, mae'r ysgol wedi darparu rôl ganolog a hanfodol yn hyn. • Mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol yn yr ardal oherwydd y % uchel o siaradwyr Cymraeg. • Mae'r ysgol yn addysgu tua 16% o blant ysgolion cynradd yr ardal trwy gyfrwng y Gymraeg. • Mae'r Cyngor wedi buddsoddi yn nwyrain y sir, a dylai wneud hynny yn y gorllewin drwy gadw'r ysgol ar agor. • Anfon neges cwbl negyddol i rieni o ran manteision addysg Gymraeg a dwyieithrwydd yn gyffredinol.	**Er mwyn asesu'r effaith bosibl ar yr iaith Gymraeg, rhoddodd y ddogfen ymgynghori ystyriaeth lawn i'r meysydd canlynol:** • **Iaith yr ysgol;** • **Mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg:** • **Darpariaeth Addysg / Safonau Addysg;** • **Mynediad i ddarpariaeth anstatudol;** • **Mynediad i weithgareddau cyn/ar ôl ysgol;** • **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** **Yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn ei ffiniau, gyda'r nod o greu sir a gwlad gynyddol ddwyieithog.** **Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru o ddatblygu dysgwyr sydd yn gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg) a lle mae galw.** **Mae ymchwil (ORS) a gomisiynwyd yn awgrymu bod y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn codi mewn rhai ardaloedd yn y Sir ond yn gostwng mewn rhai eraill.** **Pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, barn y Cyngor yw bod digon o leoedd heb eu llenwi yn Ysgol y Llys, Prestatyn ac Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon i ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Mae'r duedd o niferoedd gostyngedig yn Ysgol Gymraeg Mornant yn arwydd nad yw rhieni / gofalwyr yn yr ardal yn mynd ati i ddewis yr ysgol ar gyfer eu plant. Mae'r**

• Nid yw'r iaith yn cael y parch y dylai ei gael gan Gyngor Sir y Fflint. • Dylem fod yn diogelu asedau gwerthfawr iaith a diwylliant. • Byddai'r cyn-gyfarwyddwr Addysg yn troi yn ei fedd. • Mae'n warthus y gall y Cyngor ystyried cau ysgol Gymraeg. • Mae'n hoelen yn arch addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. • Byddai'n achosi niwed sylweddol i enw da'r Sir fel arloeswyr addysg cyfrwng Cymraeg i gau'r ysgol. • Yr ysgol yw'r unig ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Sir y Fflint. • Dylid trysori a gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. • Oherwydd y Parlwr Du mae'r iaith yn rhan bwysig iawn o hanes a diwylliant yr ardal. • Mae llawer yn teimlo ein bod wedi cyrraedd trobwynt hollbwysig a allai rhagflaenu tranc yr iaith sydd yn ymladd i oroesi yn y gornel hon o sir sy'n siarad Saesneg yn bennaf ac yn cael ei llywodraethu yn Saesneg. • Mae cau ysgol Gymraeg yn warthus. • Mae'r ddogfen wedi creu sioc drwy'r cymunedau Cymraeg lleol. • Byddai cau yn niweidio neu hyd yn oed ddinistrio yr iaith a'r diwylliant Cymreig. • Byddai'n ergyd drychinebus i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal.	**ysgol hefyd ar hyn o bryd yng Nghategori Safonau 4 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan 'Fy Ysgol Leol'. Fel pob ysgol, mae gan Ysgol Gymraeg Mornant gyfrifoldeb i hyrwyddo ei hun o fewn ei chymuned leol a cheisio annog rhieni i fynychu neu ystyried dulliau amgen o ddarparu i'w gwneud yn gynaliadwy.** **Mewn ymateb uniongyrchol i'r arolwg ORS mae Cyngor Sir y Fflint wedi agor darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn Shotton, Glannau Dyfrdwy dan arweinyddiaeth yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf yn y Fflint. Mae'r Ysgol, y Cyngor, Menter Iaith Sir y Fflint a Mudiad Meithrin wedi cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd enfawr i addysg cyfrwng Cymraeg ar draws yr ardal gan gynnwys sylw helaeth yn y cyfryngau, dosbarthu taflenni, posteri ymgyrchu, pop ups mewn archfarchnadoedd ac ati Ar ôl blwyddyn yn unig, mae'r niferoedd sy'n mynd i mewn i'r ddarpariaeth newydd wedi mwy na dyblu a'r disgwyliad yw y bydd yn parhau i dyfu.** **Mae gwerthusiadau allanol o'n gwaith wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod yn gyson gadarnhaol ac wedi'i gydnabod fel arloesol.** **Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael ei ddarparu a'i fonitro drwy fforwm Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir y Fflint. Mae hyn yn cynnwys ystod o bartneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Menter Iaith Sir y Fflint, Syfflag, Coleg Cambria a Twf yn ogystal â phenaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y Prif Swyddog a'r Aelod Arweiniol Addysg a Ieuenctid a chaiff ei gefnogi gan ystod o swyddogion â chyfrifoldeb dros addysg, ieuenctid, cynhwysiant a derbyniadau.** **Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymwneud yn weithredol â'i bartneriaid allweddol a Llywodraeth Cymru i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae gwefan Cyngor Sir y Fflint yn cynnal nifer o ddogfennau allweddol sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg fel opsiwn i rieni gan gynnwys llyfryn a gomisiynwyd gan Mudiad Meithrin dan y teitl "Gorau o'r Ddau Fyd" sy'n amlinellu'r manteision o fod yn ddwyieithog ac yn rhoi sicrwydd i rieni drwy astudiaethau achos unigol nad oes angen iddynt fod yn siaradwyr Cymraeg eu hunain i**
Sylwadau disgyblion: • Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei cholli. • Bydd yr iaith yn marw yn yr ardal. • Nid oes llawer o ysgolion Cymraeg yn yr ardal hon. • Mae angen cadw'r iaith Gymraeg yn fyw. • Nid oes llawer o bobl sy'n siarad Cymraeg yn agos atom. • Os bydd yr ysgol yn cau byddaf yn mynd i ysgol Saesneg fel mam a dad. • Peidiwch â chau'r ysgol gan ei bod yn ysgol Gymraeg. • Tristwch na fyddai unrhyw ysgol Gymraeg. • Byddwn yn colli'r iaith Gymraeg. • Rydym yn awyddus i ddatblygu'r iaith Gymraeg. • Cadwch yr ysgol yn ysgol Gymraeg. • Mae angen cadw'r iaith yn fyw. • Dim ond 5 ysgol Gymraeg sydd.	

• Mae Eisteddfod yr Urdd yn Sir y Fflint eleni. Cwestiynau'r disgyblion: • Pam cau ysgol Gymraeg? • Os ydych yn cau ysgol Gymraeg rŵan, lle fydd nesaf?	**ddefnyddio addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd wedi talu i'r llyfrau hyn gael eu hargraffu a'u rhoi yn y pecynnau Dechrau Da Booktrust Cymru sy'n cael eu rhoi am ddim i fabanod i annog ymgysylltiad rhieni mewn gofal plant cynnar cyfrwng Cymraeg a darpariaeth addysgol gynnar. Nid yw'r awdurdod yn ymwybodol bod unrhyw Gyngor arall yn cymryd yr ymagwedd arloesol hon.** **Dywed Estyn fod y Cyngor yn cydnabod bod yna risg pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, yna efallai na fydd rhieni a disgyblion yn dewis teithio i ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn bellach i ffwrdd, a gallent ddewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg sy'n agosach at eu cartref, yna, gall yr effaith ar nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn negyddol. Ond, os yw rhieni'n wedi ymrwymo i'w plant barhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg a'u hanfon i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal, yna bydd effaith y cau yn niwtral.** **Bydd y Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion i ysgolion Cyfrwng Cymraeg eraill yn unol â'i Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.** **Yng nghyd-destun y lefel o galedi ac effaith ar gyllidebau ysgolion, gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, amcanestyniadau yn y dyfodol o ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, y nifer disgyblion a'r galw annigonol yn yr ardal a chapasiti a lleoedd dros ben y disgyblion yn y Sector Cynradd Cyfrwng Cymraeg ehangach, yn seiliedig ar y demograffig, nifer y disgyblion a gwybodaeth am dai ar gyfer yr ardal, pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau gellir darparu ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth Ysgolion Cyfrwng Cymraeg presennol, yn amodol ar ddewis rhieni.** **Mae Cyngor Sir y Fflint, gan weithio gyda'i bartneriaid strategol yn parhau i gyflawni ei ymrwymiad mawr i gefnogi Eisteddfod yr Urdd. Mae hon yn rhaglen bresennol a chreadigol o weithgareddau a fydd yn arwain at etifeddiaeth gadarnhaol parhaus ar gyfer bywyd diwylliannol yr ardal.**

Awgrymiadau eraill:

Sylwadau’r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Dylid edrych ar ffederasiwn - awgrymiadau yn cynnwys Ysgol Maes Garmon, Ysgol Croes Atti, Ysgol Gwenffrwd, Ysgol Bryn Garth, Ysgol Gronant, Trelogan. • Dylai'r ysgol gael ei marchnata a'i hyrwyddo yn debyg i’r ysgol yng Nghroes Atti. • Edrych ar ffyrdd o gynyddu nifer y disgyblion. • Cynyddu safonau addysgol yn yr ysgol. • Mae Ysgol Gymraeg Mornant yn fwy na pharod i ehangu ei apêl trwy hybu mwy dwys yn yr ardal. • Hyrwyddo’r Cylch Meithrin, ac ehangu i ddarparu mwy o weithgareddau cymunedol. • Buddsoddi mwy mewn addysg cyfrwng Cymraeg. • Gwella proffil yr ysgol. • Dylai'r Awdurdod Lleol gefnogi'r ysgol i oresgyn yr heriau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd. • Dylai'r ysgol gael y cyfle i gynyddu niferoedd disgyblion. • Dylai'r corff llywodraethu gael caniatâd i hyrwyddo'r ysgol yn y gymdogaeth. • Mae angen i Gyngor Sir y Fflint gymryd mwy o ran yng nghyfnod cynnar iawn y Ffederasiwn i gynnig arweiniad, anogaeth a chefnogaeth. • Dylai'r ysgol, gyda chefnogaeth gan yr ALl fynd i’r afael â rhai materion. • Dylai'r Cyngor gynnig yr ysgol fel dewis amgen i rieni / gofalwyr sy'n gwneud cais am le mewn ysgolion sy'n llawn. • Codi arian ar gyfer yr ysgol. • Rhannu costau cludiant gydag Ysgol Bryn Garth. • Buddsoddi Cyfalaf. • Gohirio gwaith cynnal a chadw blaenoriaeth i arbed arian. • Symud disgyblion i ysgolion llai eraill megis Trelogan. • Dylai'r Cyngor roi'r gorau i wastraffu arian. • Diwrnodau agored i rieni i weld y cyfleusterau gwych. • Cludiant i blant o dan yr oedran ysgol statudol. • Torrwch gyflogau'r Prif Weithredwr neu Brif Swyddogion. • Archwilio modelau amgen o fynd i'r afael â materion safonau, arweinyddiaeth a rheolaeth. • Adolygu'r ysgolion cyfrwng Saesneg eraill.	**Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i amrywiaeth o opsiynau amgen fel rhan o'r gwaith o ddatblygu’r cynnig presennol. Wrth ystyried y dewisiadau hyn cyfeiriwyd at brif amcanion buddsoddi’r strategaeth moderneiddio ysgolion sydd fel a ganlyn:** • **Parhau i godi safonau addysgol** • **Creu’r amodau i arweinwyr ysgol lwyddo,** • **Sicrhau bod adeiladau ysgol yn amgylcheddau dysgu a gweithio deniadol,** • **Lleihau nifer y lleoedd gwag ac annhegwch o amrywiad yn y gost fesul disgybl; a** • **Darparu gwydnwch yn erbyn cyllid refeniw sy’n gostwng.** **Mae Cyrff Llywodraethol wedi gallu ffedereiddio ers 2010 gan ddefnyddio'r broses a nodir yn y Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 ('y Rheoliadau Ffedereiddio 2010') Ond, mae Awdurdodau Lleol wedi cael pwerau o'r fath o dan y Rheoliadau newydd yn 2014 yn unig.** **Yn adroddiad Ofsted ar Ffederasiwn (2011) tri phrif reswm a roddwyd dros ffedereiddio. Mae’r Cyngor wedi cysylltu â rhai ysgolion er mwyn eu helpu fel ysgol sy’n ei chael hi'n anodd; roedd eraill yn ysgolion bach mewn perygl o gau neu'n methu â recriwtio staff o ansawdd uchel; ac eraill yn ceisio cryfhau addysg cyffredinol y disgyblion yn eu cymunedau.** **Mae manteision amlwg trwy weithio gyda'n gilydd, drwy drefniadau ffederasiwn a threfniadau phartneriaeth arall, gall ysgolion:** • **godi eu safonau, er enghraifft, drwy hyfforddiant a rennir ac arferion gwaith, gan annog eu staff i gefnogi ei gilydd a datblygu cwricwlwm integredig a pholisïau bugeiliol;** • **gynnig ystod ehangach o gyfleoedd i ddisgyblion, er enghraifft, drwy gynnal gweithgareddau ar y cyd neu rannu gyfleusterau neu athrawon a all fod yn anodd eu cynnal yn unigol;** • **datblygu ystod o wasanaethau a gweithgareddau estynedig i ddisgyblion a'r gymuned ehangach;**

• Nid oes unrhyw ddewisiadau ymarferol eraill. Dylai'r ysgol aros ar agor. • Symud yr ysgol i safle mwy addas.	• **gwella eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth, er enghraifft, drwy brifathrawiaeth a rennir; a** • **gwneud y gorau o rannu adnoddau, gan fanteisio ar arbedion maint.**
Sylwadau disgyblion • Cadw'r ysgol ar agor. • Ceisio cael mwy o ddisgyblion i'r ysgol. • Agor ysgol Gymraeg fwy. • Sir i gefnogi ysgolion bach. • Gwneud mwy ar y teledu. • Dewch i weld yr ysgol. • Caewch ysgol arall. • Agorwch mwy o ysgolion Cymraeg. • Gwnewch newidiadau i'r ysgol. • Dylai bod o leiaf un ysgol Gymraeg ym mhob tref. • Dylai bod ysgol Gymraeg ym mhob pentref waeth pa mor fach. • Caewch ysgolion Saesneg, mae digon ohonynt. • Gallent rannu dosbarthiadau. • Codwch arian ar gyfer ysgol. • Datblygu gwefan ar gyfer yr ysgol. • Denu mwy o ddisgyblion i mewn. • Helpwch nhw i adeiladu ysgol newydd. • Rhaid i'r Cyngor helpu'r ysgol.	**Ond, mae trefniadau ffederal mewn ysgolion yn aml yn methu â chwrdd â nifer o ffactorau allweddol o foderneiddio ysgolion. Mae materion allweddol yn cynnwys:** • **Adeiladau Addas – mae'r trefniadau ariannu rhaglen 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar resymoli ystâd ysgolion i gynhyrchu arbediad refeniw i alluogi mynediad at fenthyca darbodus. Yn ogystal, mewn rhai achosion o werthu eiddo dros ben, bydd hefyd yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf sy'n cael eu defnyddio i ddod o hyd i gyfraniad o 50% yr Awdurdod Lleol i'r rhaglen. Ni fydd trefniadau ffederal yn rhesymoli'r ystâd, felly bydd yr arbediad refeniw naill ai'n ddim neu'n gyfyngedig i arbedion posib bach yn y dyraniadau ysgol a dim ond os gellir newid dyraniadau a / neu strwythurau fformiwla.** • **Lleoedd heb eu llenwi - gan nad yw'r trefniadau Ffederal yn rhesymoli ystâd ysgolion, mae lleihau lleoedd heb eu llenwi yn gyfyngedig i rewi ardaloedd o ysgolion, gall hyn fod yn gyraeddadwy, neu beidio, mewn ysgolion unigol ar gyfer rhesymau gweithredol, ymarferol neu resymau sy'n gysylltiedig ag adeiladu.** • **Lleihau Adnoddau - nid yw trefniadau Ffederal yn cefnogi arbedion refeniw mawr, yn lle hynny gallai arbedion posibl bach yn y dyraniadau ysgol o bosibl fod yn gyraeddadwy trwy ddyraniadau fformiwla pe byddai strwythurau staffio yn cael eu newid. Byddai'r costau cysylltiedig ag adeiladau yn aros fel y maent ar hyn o bryd.** **Mae datblygu a chynnal rhwydwaith cadarn o ysgolion sy'n perfformio'n dda mewn cyfnod o lymder yn her barhaus pan mae llawer o'n hysgolion cynradd mwy gwledig yn fach neu'n fach iawn. Mae hyn yn her ar gyfer darparu cwricwlwm eang a datblygu staff yn ogystal â rheoli cyllidebau ysgolion. Er mwyn sicrhau dyfodol ein hysgolion, mae'n hanfodol ein bod yn gweithio i ail-fframio ein**

	darpariaeth bresennol er mwyn creu rhwydwaith cynaliadwy o gymunedau dysgu rhyngddibynnol yn lleol, yn hytrach na rhai annibynnol, sy'n gallu ac yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ariannol a dynol i gynnig canlyniadau addysgol rhagorol nodedig. Mae hyn yn bryder arbennig i rai o'n hysgolion gwledig lleiaf lle mae angen i ni ddatblygu gwell dealltwriaeth o fanteision cydweithio er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer darpariaeth leol. **Ystyriodd Llywodraethwyr Ysgol Croes Atti, Y Fflint, gais swyddogol i ffedereiddio ag Ysgol Gymraeg Mornant yn eu cyfarfod corff llywodraethu dyddiedig 20 Ionawr, 2015, ond, penderfynodd y Llywodraethwyr yn unfrydol na fyddent o blaid ffurfio ffederasiwn ar hyn o bryd. Er nad ydynt yn cefnogi'r cynnig, nid yw Ysgolion Cyfrwng Cymraeg eraill yn Sir y Fflint wedi argymell trefniant ffederal gydag Ysgol Gymraeg Mornant. Nid yw Llywodraethwyr Ysgol y Llys, Prestatyn wedi cynnig unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad. Ond, mae Ysgol Maes Garmon wedi datgan y byddent yn dymuno ymgysylltu ymhellach gyda'r Llywodraethwyr yn Ysgol Gymraeg Mornant a'r Cyngor i archwilio ffyrdd y gallai darpariaeth cyfrwng Cymraeg gael ei gynnal yn yr ardal a pha gefnogaeth y gallent ei gynnig i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae Llywodraethwyr y ddwy ysgol wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'r arweiniad a geir o fewn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 Llywodraeth Cymru ac fel y cyfryw wedi cyflwyno achos ar gyfer ffederasiwn.** **Cyfrifoldeb corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Mornant yw gweithio gyda'r Pennaeth i hyrwyddo a marchnata'r ysgol unigol i'r gymuned ehangach.** **Barn y Cyngor yw os byddai'r cynnig presennol yn cael ei weithredu, byddai'n gwella safon ac ansawdd yr addysg cyfrwng Cymraeg presennol yn yr ardal ac yn fwy penodol ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant. Mae'r adolygiad wedi mynd ati i fynd i'r afael â heriau o fewn yr ardal sydd â'r potensial i effeithio ar gynaladwyedd darpariaeth o ansawdd uchel yn y dyfodol. Mae'r cynnig hwn a chynigion cysylltiedig yn ceisio cynnal y safon gyfredol gyda'r bwriad o gryfhau a gwella'r ddarpariaeth addysgol yn yr ardal.**

	Mae Estyn hefyd yn datgan bod y bwriad yn debygol o o leiaf cynnal y ddarpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer disgyblion yn yr ardal. **Mae rheoliadau yn disgrifio rolau a chyfrifoldebau priodol corff llywodraethu. Mae'n gyfrifoldeb statudol ar y corff llywodraethu i gynnal yr ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol.** **Tri phrif swyddogaethau corff llywodraethu yw** **(i) gosod y nodau a'r amcanion ar gyfer yr ysgol;** **(ii) cytuno ar bolisïau, targedau a blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn;** **(iii) monitro a gwerthuso'r nodau a'r amcanion ac a yw'r polisïau, targedau a blaenoriaethau yn cael eu diwallu, bob amser gyda bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol.**

Cryfderau Ysgol Gymraeg Mornant

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae Ysgol Mornant yn bwysig i'r gymuned. • Mae'r Adeilad yn addas ac yn ddefnyddiol. • Mae gan yr ysgol ethos da a theimlad teuluol glos. • Mae disgyblion yn ffynnu yn yr amgylchedd dysgu bach. • Mae nifer o gyn-ddisgyblion wedi mynd ymlaen i gael llwyddiant yn eu bywydau fel oedolion. • Mae'r ysgol yn deulu. • Mae'n awyrgylch gyfeillgar braf. • Mae'r ysgol yn lleol a gallwn gerdded yno. • Mae'n ysgol bentref bychan lle mae'r holl blant yn adnabod ei gilydd ac yn chwarae gyda'i gilydd. • Mae fy mhlentyn / plant yn hapus yno. • Mae'r ysgol yn darparu cyfle unigryw i fod yn ddwyieithog. • Mae'r ysgol wedi darparu cymorth sylweddol i'm teulu ac mae gan fy mhlant anghenion ychwanegol. • Mae cyfeillgarwch cartref / ysgol agos. • Mae'r athrawon yn gwneud amser ar gyfer y pethau lleiaf. • Mae fy mhlentyn yn ffynnu mewn ystafell ddosbarth llai. • Sefydlwyd yr ysgol i fod yn ysgol ardal ac mae'n gwasanaethu nifer o bentrefi. • Mae gan yr ysgol enw da rhagorol.	**Mae'r ymatebion cadarnhaol gan ymgyngoreion am Ysgol Gymraeg Mornant wedi'u nodi.** **Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ac athrawon y gorffennol a'r presennol gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol a gyda hanes eu bywydau eu hunain.** **Mae Estyn wedi nodi'r heriau addysgol sy'n wynebu ysgolion neu safleoedd bach (Estyn - Ysgolion Cynradd Bach yng Nghymru, 2003) fel:** • **Addysgu dosbarthiadau oedran cymysg sy'n cynnwys mwy na 2 neu 3 o grwpiau oedran;** • **maint cyfyngedig grwpiau cyfoedion a digonolrwydd her;** • **cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol;** • **anawsterau gyda recriwtio a chadw staff;** • **beichiau gormodol ar staff; a** • **mwy o arbenigedd sy'n ofynnol i gefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.**

<table>
<tr>
<td>

- Mae Estyn wedi dweud bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn 'DDA'.
- Cefais i lawer o gyfleoedd i chwarae amrywiaeth o chwaraeon yn yr ysgol.
- Mae'n ysgol wych - cartref oddi cartref.
- Mae ganddo gaeau chwarae helaeth ac mae wedi'i leoli mewn safle prydferth gyda golygfeydd panoramig yn edrych dros y môr.
- Mae'n ysgol fach gyda chalon fawr.
- Nid yw un maint yn addas i bawb.
- Mae Ysgol Mornant wedi bod yn lle pwysig iawn i mi a fy nheulu.
- Mae gan yr ysgol athrawon a chynorthwywyr dosbarth gwych.
- Mae'r ysgol mor groesawgar a chyfeillgar.
- Mae'r ysgol yn darparu gofal bugeiliol da.
- Mae'r ysgol yn ysbrydoliaeth.
- Mae'r llwybr mwynwyr i'r Parlwr Du yn rhedeg ochr yn ochr â'r ysgol lle cafodd eu plant eu haddysg.

</td>
<td rowspan="2">

Mae strategaeth moderneiddio ysgolion y Cyngor yn nodi: bydd darpariaeth ysgolion cynradd yn y dyfodol yn ceisio dilyn un o'r modelau a argymhellir gan y Cyngor a ddisgrifir isod. Y modelau yw:

a) mynediad 1 dosbarth neu ragor - ysgol gynradd yn darparu o leiaf 210 o leoedd llawn amser neu fwy (tua 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn) a gyda dim mwy na 25% o leoedd dros ben. Modelau eraill o leiaf un dosbarth mynediad, er enghraifft, 1.5, 2, 2.5 neu 3 dosbarth y flwyddyn hefyd yn effeithlon ac yn effeithiol.

b) Gall ysgolion sydd â llai nag 1 dosbarth y flwyddyn, ond gyda mwy na 0.5 dosbarth y flwyddyn gan ddarparu o leiaf 105 o leoedd llawn amser (tua 15 disgybl ymhob grŵp blwyddyn) lle y bo angen, gael eu hystyried ar gyfer ffurfio ysgol ffederal neu ysgol ardal. Byddai ysgolion ardal yn cael eu ffurfio yn unol â'r model gweithredu a ffafrir gan y Cyngor yn (a) uchod.

Byddai trefniadaeth ysgolion cynradd gwydn a chynaliadwy yn galluogi:

- **Pennaeth gydag o leiaf 40% o ymrwymiad amser i arweinyddiaeth a rheolaeth. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cynyddu o ran maint yr ysgol. Mae angen digon o gapasiti arweinyddiaeth ym mhob ysgol ac mae aneffeithlonrwydd o ddefnyddio penaethiaid fel athrawon dosbarth cyflog uchel;**
- **mwy o fudd i ddisgyblion o ryngweithio cymheiriaid;**
- **mwy o gyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion drwy ddatblygu amrediad ehangach o weithgareddau; gwella gallu plant i greu perthynas a dathlu amrywiaeth;**
- **uchafswm maint dosbarth o 30 yn y Cyfnod Sylfaen;**
- **lleihau dosbarthiadau Cyfnod Allweddol cymysg;**
- **mwy o opsiynau ar gyfer trefnu dosbarthiadau o fewn ysgolion;**
- **arbenigedd staff fel bod athrawon yn gallu arwain pwnc unigol ar draws yr ysgol, a thrwy hynny yn ennill mwy o ffocws ar ddyfnder wrth ddarparu pwnc;**
- **mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol ymhlith staff, gan roi cyfle i ddatblygu cryfderau ac arbenigedd mewn meysydd**

</td>
</tr>
<tr>
<td>

Sylwadau disgyblion:

- Mae gan yr ysgol nifer o bethau cadarnhaol.
- Mae'n ysgol bach hyfryd.
- Mae gennym lawer o atgofion o'n plentyndod.
- Mae'r ysgol yn gwneud i ni deimlo'n arbennig.
- Mae'r ysgol wedi rhoi profiadau anhygoel.
- Mae'r ysgol mewn hen adeilad.
- Rydym yn cael hwyl yma
- Mae pawb yn edrych allan am ei gilydd.
- Rydym ni fel teulu.
- Mae ein hysgol yn arbennig.
- Rwy'n adnabod pawb.
- Mae'r ysgol yn golygu popeth i mi.
- Mae'n hen ysgol.
- Mae pawb yma yn hapus.
- Mae gennym gyfeillgarwch da.
- Mae'r ysgol mewn safle hyfryd.
- Mae gennym lawer o le.
- Iaith Gymraeg
- Mae'n ysgol unigryw.
- Mae pawb fel teulu.
- Mae gennym olygfa dda.
- Mae pawb yn adnabod ei gilydd.

</td>
</tr>
</table>

	ehangach, gan gynnwys nifer o bynciau nad ydynt yn rhai craidd. • **gwell recriwtio a chadw staff;** • **cyfle ar gyfer cyfleusterau dysgu a gwaith rhagorol;** • **amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned;** • **gwell amgylchedd ddysgu a gwaith a dim ystafelloedd dosbarth symudol;** • **arbedion maint ar gyfer gwasanaethau cymorth gweinyddol a busnes llawn amser;** • **ariannu teg a digonol fesul disgybl i alluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial, tra'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau.** **Mae'r ysgol hefyd ar hyn o bryd yng Nghategori Safonau 4 ym model categoreiddio Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gyhoeddi ar wefan 'Fy Ysgol Leol'. Mae gan ysgolion Cyfrwng Cymraeg cyfagos eraill well canlyniadau addysgol.**

Effaith y cynigion ar amseroedd a chostau trafnidiaeth

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Bydd amser teithio'r disgyblion i'r ysgol yn cynyddu'n sylweddol. • Nid wyf yn hapus i adael i fy mhlentyn fynd heb oruchwyliaeth ar fws i'r ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill. • Mae teithio milltiroedd ychwanegol y dydd yn arwyddocaol iawn i blentyn 4/5 mlwydd oed. • Byddai'r polisi trafnidiaeth yn gorfodi rhai disgyblion i fynd i Ysgol Gwenffrwd yn erbyn dymuniad eu rhieni. • Nid yw gwir gostau ariannol cludo'r disgyblion presennol a dyfodol wedi cael ei gyfrifo'n gywir. • Byddai'r amser teithio ychwanegol i'r ddwy ysgol arall yn fwy na'r mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008. • Ni all yr amser teithio gael ei ystyried fel dechrau a diwedd rhesymol i ddiwrnod ysgol y plentyn. • Mae'r amseroedd teithio wedi cael eu tanamcangyfrif yn fawr iawn. • Mae yna eisoes broblemau tagfeydd trwm ar adegau brig yn y safleoedd eraill. • Ni fyddai fy mhlentyn yn ymdopi â'r daith hirach i ac o'r ysgol, byddai'n peri gofid iddo.	**Mae cymhwysedd cludiant yn cael ei bennu gan yr Awdurdod lle mae'r disgybl yn byw. Bydd yr holl ddisgyblion sy'n byw yn Sir y Fflint yn cael hawl i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth a modelu bod disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gwenffrwd ar sail y rhesymau canlynol:** • **Bod yr ysgol briodol agosaf sydd ar gael fwy na 2 filltir i ffwrdd;** • **Y byddai'r ffordd i'r ysgolion eraill yn cael ei ystyried yn beryglus gan y Cyngor oherwydd ei leoliad gwledig, sydd â llwybrau cerdded cyfyngedig i mewn ac allan o'r pentref.** **Amcangyfrifir y bydd uchafswm costau blynyddol ar gyfer trafnidiaeth o ganlyniad i'r cynnig yn £26,600. Ond, roedd hwn yn fodel dangosol yn seiliedig ar yr holl deuluoedd yn dewis yr ysgol Cyfrwng Cymraeg bellaf. Gellir ond asesu costau cludiant gwirioneddol yn llawn pan fydd pob teulu wedi dewis yr ysgol o'u dewis.** **Mae'n ofyniad ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn 1) darparu cludiant yn unol â statud a'i bolisi ei hun a 2) bod trefniadau cludiant yn cael eu**
Sylwadau disgyblion:	

• Efallai y bydd rhaid i'r rhieni eu gyrru mewn car i ysgol arall. Cwestiynau'r disgyblion: • Oes bws ar gael? • A fydd oedolyn ar y bws ar gyfer y bws meithrin.	**comisiynu yn unol â mesur Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.**

Effaith ar y gymuned

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae'r ysgol yn gwasanaethu hyd at 8 o bentrefi yng Ngogledd Orllewin y sir. • Bydd yn golled i aelodau'r gymuned. • Asesiad effaith cymunedol yn methu dangos y gymdeithas gymunedol ehangach. • Ni fyddai'r ysgolion eraill yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol. • Methu archwilio'r effeithiau cymunedol hirdymor. • Bydd y bwriad yn cael effaith niweidiol ar y gymuned yn gyffredinol oherwydd lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. • Mae gardd goffa.	**Cynhaliwyd Asesiad Effaith Gymunedol ac mae'r Cyngor yn cydnabod lle mae yna gynnig i gau ysgol y bydd yn cael rhywfaint o effaith ar y gymuned leol. Nid yw'r ysgol yn cael ei defnyddio yn eang gan y gymuned.** **Ond, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion a'r gymuned i liniaru effeithiau lle y bo'n bosibl.** **Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer y safle, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle hyd nes y penderfynir ar ddyfodol yr ysgol.** **Gallai'r Cyngor ystyried trosglwyddo'r ased neu ran o'r ased i grŵp cymunedol cyfansoddiadol lle gallant ddangos bod yr angen a'r gallu i gymryd drosodd y gwaith o redeg y safle.** **Mae Estyn yn datgan bod y Cyngor wedi darparu dadansoddiad agored a gonest o effaith bosibl a gweddilliol cadarnhaol, niwtral a negyddol ar deuluoedd a'r gymuned leol.** **Mae'r Cyngor wedi cydnabod yn y dogfennau bod yr ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu yn ehangach na phentrefan Gwespyr a Picton.**

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn dilyn ei Bolisi Cynllun Addysg Gymraeg Strategol (CSCA) ei hun na Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae'r cynnig yn debygol o arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ardal Sir y Fflint. • Mae'r cynnig yn mynd yn erbyn polisi CSCA Cyngor Sir y Fflint. • Byddai cyfle cyfartal i ddisgyblion yn yr ardal yn cael ei beryglu oherwydd ei fod	**Yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae Cyngor Sir y Fflint yn ymdrechu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn ei ffiniau, gyda'r nod o greu sir a gwlad gynyddol ddwyieithog.** **Mae'r Cyngor yn cyflawni ei hamcanion fel y nodwyd yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

yn fwy anodd cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. • Mae agor darpariaeth newydd yn Ysgol Croes Atti, Shotton yn tanseilio unrhyw ymdrechion cadarnhaol i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y Sir.	**Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i gefnogi, ehangu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan, gan gynyddu nifer a chanran y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru o ddatblygu dysgwyr sydd yn gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg) a lle mae galw, a dangoswyd mai dyma'r achos pan ganfuwyd galw am addysg Cyfrwng Cymraeg yn ardal Glannau Dyfrdwy.** **Mae Estyn yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod bod perygl, os yw Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, yna efallai na fydd rhieni a disgyblion yn dewis teithio i ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn bellach i ffwrdd, a gallant ddewis mynychu ysgol cyfrwng Saesneg sy'n agosach at eu cartref, yna, gall yr effaith ar nifer y disgyblion sy'n cael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn negyddol. Ond, os yw rhieni'n wedi ymrwymo i'w plant barhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg a'u hanfon i ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill yn yr ardal, yna bydd effaith y cau yn niwtral.** **Yng nghyd-destun y lefel o galedi ac effaith ar gyllidebau ysgolion, gostyngiad yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, amcanestyniadau yn y dyfodol o ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Mornant, nifer disgyblion a'r galw annigonol yn yr ardal a chapasiti a lleoedd dros ben y disgyblion yn y Sector Cynradd Cyfrwng Cymraeg ehangach, yn seiliedig ar y demograffig, nifer y disgyblion a gwybodaeth am dai ar gyfer yr ardal, pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau gellir darparu ar gyfer disgyblion yn y ddarpariaeth Ysgol Cyfrwng Cymraeg presennol, yn amodol ar ddewis rhieni.** **Roedd canlyniad arolygon Gwasanaethau Ymchwil Barn (ORS) 2009 a 2013 ynglŷn â'r galw gan rieni am addysg cyfrwng Cymraeg yn elfennau allweddol o benderfyniad y Cyngor i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Glannau Dyfrdwy yn 2014 trwy greu Ysgol Croes Atti Glannau Dyfdrwy. Roedd y ddarpariaeth hon mewn ymateb uniongyrchol i'r galw gan rieni.** **Mae Croes Atti Glannau Dyfdrwy yn ffynnu yn y gymuned leol. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu ers i'r cyfleuster gael ei agor.**

Cysylltiadau teuluol gyda'r ysgol

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae aelodau eraill o'r teulu yn mynychu'r ysgol, sy'n cynnal agosatrwydd, a system gefnogi. • Mynychais i'r ysgol ac mae fy wyrion yn mynychu'r ysgol hon. • Mae yna lawer o atgofion hapus / hoff o fynychu'r ysgol hon. • Mae pob un o'n teulu wedi cael eu haddysgu yma. • Es i yno ac rydw i eisiau anfon fy mhlant i i'r ysgol hon.	**Mae'r ymatebion gan ymgyngoreion am Ysgol Gymraeg Mornant wedi'u nodi.** **Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ac athrawon y gorffennol a'r presennol gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol a gyda hanes eu bywydau eu hunain. Mae gan y Cyngor yr her o gydbwyso sensitifrwydd y teimlad cymunedol ar y naill law, â darparu cynnig addysg o ansawdd uchel y gellir ei gynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles pennaf disgyblion a myfyrwyr.**
Sylwadau disgyblion: • Mae fy nheulu wedi dod yma dros y blynyddoedd.	

Effaith ar Ofal Plant

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae'r ddogfen yn methu â sôn am yr effaith negyddol ar y Cylch Meithrin a'r Grŵp Ti a Fi. • Nid oes cynnig adleoli ar gyfer y Cylch Meithrin petai'r ysgol yn cau. • Dylai bod darpariaeth cylch meithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.	**Roedd y ddogfen ymgynghori yn cydnabod bod Cylch Meithrin a grŵp Ti a Fi ar safle Ysgol Gymraeg Mornant, a bod yna risg i'r gwasanaethau hyn pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau.** **Mae Ysgol Gwenffrwd ac Ysgol y Llys yn cynnig darpariaeth cyn-ysgol ar eu safleoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.** **Mae Cylch Meithrin Rhagoral yn cynnig lleoedd rhan amser a ariennir ar gyfer plant tair oed (Hawliau Cynnar), a grŵp rhieni a phlant bach.** **Mae Cylch Meithrin Treffynnon yn cynnig lleoedd rhan amser a ariennir ar gyfer plant tair oed (Hawliau Cynnar), a grŵp rhieni a phlant bach.** **Yn dibynnu ar ddewis rhieni, os bydd Ysgol Gymraeg Mornant yn cau a rhieni yn parhau gyda darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg, yna mae'r Cyngor wedi asesu'r effaith yn niwtral. Os bydd rhieni yn symud at ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Saesneg, yna mae'r Cyngor wedi cydnabod y byddai'r effaith yn negyddol.** **Nid oes unrhyw blant cyn-ysgol yn Sir y Fflint yn cael cludiant am ddim i'w darpariaeth cyn-ysgol a ddewiswyd.**
Sylwadau disgyblion: • Byddai'n cael effaith sylweddol ar blant dan 5 oed, a meithrinfa'r ysgol.	

Dogfen Ymgynghori

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn yr ardal ac mae hyn yn gamarweiniol. • Mae'r ddogfen yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi dyddio - dylai ffigwr capasiti yr ysgol fod yn 81 nid 111. • Nid yw'n cymryd i ystyriaeth y disgyblion ADY yn yr wybodaeth perfformiad ar gyfer yr ysgol. • Mae gwybodaeth arolygu Estyn yn hen ar gyfer yr ysgolion amgen eraill. • Mae'r ddogfen yn datgan nad oes gofal cofleidiol yn cael ei ddarparu ac nid yw hyn yn gywir gan fod Cylch Meithrin, a grŵp Ti a Fi (grŵp plant bach a rhieni). • Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn gwella safon ac ansawdd yr addysg yn yr ardal. • Mae'r ddogfen yn annigonol gan ei bod yn darparu argraff sgiw bod yr ardal gymunedol ac dalgylch yn cael ei chyfyngu i bentrefan Gwespyr-Picton. • Cyflwr Ysgol Gwenffrwd yw C, sy'n arddangos diffygion mawr a buddsoddiad sylweddol. • Mae'r ddogfen yn gamarweiniol. • Mae'r cyfraddau geni yn y ddogfen sy'n seiliedig ar 5 mlynedd yn druenus o annigonol. • Mae'r ddogfen yn methu â chydnabod bod y gostyngiad yn nifer y disgyblion yn debygol o fod oherwydd ansawdd y ddarpariaeth iaith Gymraeg a diwylliant yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg lleol. • Mae'r ddogfen ymgynghori yn fwriadol yn gwneud i'r ysgol edrych yn wael, sydd yn anghyfiawn, yn annheg ac yn hynod anghywir. • Nid yw'r Cylch yn rhannu'r un man chwarae. • Mae'n anghywir i ddatgan nad oes mannau parcio pwrpasol. • Mae dros 90% o'r plant yn yr ardal ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Gymraeg Mornant fel eu hysgol leol. • Mae gan Ysgol Gwenffrwd Treffynnon nifer o broblemau sy'n golygu nad yw'n ddewis da, mae'r adeilad bob amser wedi bod yn anaddas fel ysgol gynradd. Cwestiynau'r disgyblion: • Pam ydych chi wedi agor ysgolion Cymraeg eraill? • Pam ydych chi'n ceisio cau'r ysgol?	**Mae'r Tîm Moderneiddio Ysgolion yn defnyddio'r data diweddaraf a wiriwyd ar adeg creu'r dogfennau ymgynghori:** **•Bydd niferoedd disgyblion yr ysgol a gwybodaeth fanylach am ddisgyblion (er enghraifft, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Saesneg fel laith Ychwanegol a gweithredu ysgol / ysgol a mwy / â datganiad) yn cael eu canfod o ffurflenni ystadegol yr ysgol (Medi neu Ionawr)** **• Daw data Estyn o arolwg Estyn diwethaf yr ysgol. Bydd amseru arolygon yn dibynnu ar gylch arolygu Estyn ei hun.** **• Mae data categoreiddio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ffurflenni ysgol. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data diweddaraf o wefan Llywodraeth Cymru ar adeg llunio'r ddogfen. Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru eu cronfa ddata genedlaethol yn flynyddol.** **• Mae data GwE (Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol) yn cyfrannu at system gategoreiddio genedlaethol Llywodraeth Cymru.** **• Mae ffurflenni cenedlaethol Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gwirio gan Benaethiaid, ac mae hyn yn darparu Capasiti Ysgolion a Nifer Derbyn.** **• Mae lleoedd gwag yn cael eu cofnodi gan Lywodraeth Cymru; mae'r Cyngor yn rhoi ffurflenni i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn; maent hefyd yn seiliedig ar ffurflenni swyddogol yr ysgol.** **• Gellir cael gwybodaeth geni yn ôl ardal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol** **• Mae amcanestyniadau disgyblion yn cyd-fynd â'r fethodoleg fel Awdurdodau cyfagos â Gogledd Cymru** **• Mae gwybodaeth datblygu Tai yn seiliedig ar geisiadau tai presennol gwirioneddol a ddarperir gan y Swyddogion Cynllunio.** **• Bydd disgyblion posibl a allai gael eu cynhyrchu o ddatblygiadau tai newydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla gan Awdurdod partner (CBS Conwy) sy'n llunio fformiwla yn seiliedig ar y canlyniadau cyfrifiad diweddaraf.** **• Mae cymarebau disgybl athro yn cael eu darparu gan ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus ar ysgol (http://mylocalschool.wales.gov.uk), ac yn**

• Beth os oes ysgol Saesneg yn nes na'r ysgol Gymraeg? • Beth os nad oes digon o le mewn ysgol arall i bawb? • A fydd yna ddigon o le i bawb yn y ffreutur? • I ble fydd y plant yn mynd?	**cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru a'u diweddaru'n flynyddol.** **• Mae canlyniadau Cyfnod Sylfaen a Phynciau Craidd yn cael eu darparu gan ystadegau sydd ar gael yn gyhoeddus ar ysgol (http://mylocalschool.wales.gov.uk), ac yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru a'u diweddaru'n flynyddol.** **• Mae gwybodaeth am gyflwr Adeiladau Ysgolion yn cael ei darparu gan gwmni allanol sy'n cymharu cyflwr adeilad yr ysgol yn erbyn y bwletin adeiladu ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd** **• Mae gwybodaeth cynnal a chadw yn cael ei darparu gan ymgynghorwyr annibynnol drwy Arolygon Cyflwr Eiddo, ac yn cael eu cynnal ar gylch 5 mlynedd.** **Mae codau blaenoriaeth [diffiniad] fel a ganlyn:-** **Blaenoriaeth 1: Gwaith brys yn ofynnol o fewn blwyddyn** **Blaenoriaeth 2: Gwaith hanfodol yn ofynnol o fewn 2 flynedd** **Blaenoriaeth 3: Gwaith dymunol [tybiedig] yn ofynnol o fewn 3 i 5 mlynedd** **Blaenoriaeth 4: Gwaith tymor hir [tybiedig] yn ofynnol y tu allan i'r cyfnod [cylch] 5 mlynedd** **Mae'r elfen Cyfanswm 1 - 3 yn diffinio buddsoddiad ariannol pum mlynedd ac mae elfen 4 yn diffinio buddsoddiad ariannol chwech – ddeng mlynedd.** **• Mae gwybodaeth am addasrwydd ysgol yn cael ei ddarparu o arolygon a gynhaliwyd yn annibynnol yn unol â chanllawiau Rheoli Asedau DffE a'u hadolygu gan swyddogion Cyngor Sir y Fflint a'u diwygio os yw'r gwaith wedi ei gwblhau yn yr ysgolion ar ôl yr arolwg cychwynnol.** **• Mae Gwaith Cyllidebol Ysgolion yn cael ei gynnal gan ddefnyddio'r fformiwla a gytunwyd yn unol â fforwm cyllideb yr Ysgol. Bydd data cost fesul disgybl yn cael ei sicrhau o ddatganiadau cyllideb adran 52 yr Awdurdod.** **• Mae pellter teithio rhwng safleoedd ysgolion yn cael ei ddarparu gan system fapio Cyngor Sir y Fflint – Route Finder 3.41** **• Mae costau cludiant yn cael eu darparu gan yr uned isadeiledd sy'n gweinyddu contractau cludiant o'r cartref i'r ysgol.** **Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori bod digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol i ddarparu ar gyfer**

	disgyblion o Ysgol Gymraeg Mornant pe bai'n cau, ac mae Estyn yn cefnogi'r farn hon. **Mae'r asesiad effaith cymunedol yn cydnabod bod yna risg i ddarpariaeth cyn-ysgol y Cylch Meithrin ar safle Ysgol Gymraeg Mornant.** **Mae cyfeirio at y materion hygyrchedd ar gyfer safle Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon eisoes wedi cael eu dogfennu a'u cydnabod yn yr adroddiad ymgynghori.** **O'r wybodaeth cyfrifiad ar gyfer Ysgol Gymraeg Mornant, nid oes unrhyw ddisgyblion ag anabledd symudedd corfforol.** **Mae Cyngor Sir y Fflint yn ymwybodol o'r dyletswyddau a osodwyd arno gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'n gweithio o fewn cyfyngiadau'r Ddeddf i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch ar gyfer ei ddisgyblion.** **Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn rhoi eglurhad manwl a rhesymeg am y rhesymau dros y cynnig.** **Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi manylion ynglŷn â'r ysgolion eraill o ran eu capasiti**

Effaith ar ddisgyblion

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Gall symud i ddosbarthiadau mawr effeithio ar gyflawniad fy mhlentyn yn yr ysgol. • Bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar rieni / gwarcheidwaid o ran cefnogi eu plentyn / plant mewn gweithgareddau ychwanegol. • Effaith negyddol fawr ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. • Nid oedd gan un aelod o Ysgol Gymraeg Mornant farn gadarnhaol yn ystod eu cyfarfod ymgynghori. • Byddai'n cymryd mwy o amser i godi plentyn sâl o'r ysgolion eraill. • Byddai symud o ysgol fach bentref i ysgol fawr yn y dref yn drawmatig ac yn niweidiol. • Bydd iechyd a lles y disgybl a'r hawl i addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gyfyngu'n ddifrifol. • Llai o amser i gwblhau gwaith cartref a gweithgareddau eraill. • Byddai'n drawmatig i'r disgyblion. • Os mai cau yw'r cynnig bydd yn achosi llawer o aflonyddwch i'r disgyblion.	**Wrth gynnig newidiadau i drefniadaeth ysgolion, cydnabyddir y bydd rhai newidiadau i'r disgyblion. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu ac Ysgol Gymraeg Mornant yn cau byddai'n arwain at newidiadau i'r disgyblion presennol megis:** • **Mae'n daith hirach i ysgol ar gyfer disgyblion** • **Llai o amser teithio i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardal Sir Ddinbych** • **Gwisg ysgol newydd** • **Athrawon a staff cefnogi newydd** • **Amgylchedd dysgu newydd** • **Gall grwpiau cyfeillgarwch gael eu heffeithio, ond gellir ffurfio cyfeillgarwch newydd.** **Mae gan y cyngor a'r ysgolion a effeithir ddyletswydd i gefnogi pontio priodol pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau.** **Byddai'r Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i hwyluso'r newid ar gyfer yr holl ddisgyblion, yn fwyaf arbennig ar gyfer grwpiau o ddysgwyr diamddiffyn megis Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Os**
Sylwadau disgyblion:	

• Pryder am effaith cau'r ysgol ar y disgyblion. • Pryder y byddai grwpiau cyfoedion a brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu. • Y gofid y byddai cau'r ysgol yn ei achosi i ni. • Pryder am ffrindiau yn cael eu gwahanu, a cholli ffrindiau. • Pryder dros wneud ffrindiau newydd. • Pryder dros golli athrawon. • Colli'r ysgol pe bai'n cau. • Ddim eisiau mynd i ysgol arall. • Ni fydd unrhyw un yn hapus. • Byddaf yn colli fy holl atgofion. • Tristwch a dicter petai'r ysgol yn cau. • Pryder am golli athrawon. • Pryder am gael athrawon newydd. • Byddwn yn colli'r ysgol. • Nerfus ynglŷn â dechrau ysgol newydd. • Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion deithio ymhellach. • Pryder am ddechrau eto. • Gwisg Newydd. • Mae gen i deulu yn yr ysgol ac mae hi'n teimlo'n ansicr iawn ac yn anhapus. • Mae'r amserlen i symud ysgolion erbyn Medi 2016 yn ymddangos yn gyflym iawn. • Byddai'n rhyfedd iawn peidio cystadlu mewn cystadlaethau gyda'r ysgol. • Rydym ni fel Cyngor Ysgol yn anhapus. • Gwrthwynebwn y cynnig. Terminoleg arall a ddefnyddir: • Isel, unig iawn, nerfus, nid yw'n deg, dwi'n mynd i grio, yn teimlo yn isel, yn ddryslyd, nid wyf yn hoffi meddwl am y peth, yn mynd i fod yn swil, ddim yn gwybod beth i'w wneud, yn ofnus, yn anghyfforddus, yn poeni, truenus, ddigalon, isel, trist, dig iawn, anhapus, swil ac ar goll.	**bydd y cynnig yn cael ei weithredu byddai'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion perthnasol i wneud trefniadau pontio priodol i'r disgyblion ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd (yn amodol ar ddewis y rhieni).** **Lle mae gan ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol penodol byddai'r adnoddau a'r gefnogaeth maent eu hangen ar gael yn eu hamgylcheddau dysgu newydd.** **Bydd y Cyngor yn cynnal cylch derbyn i gefnogi rhieni gyda throsglwyddo i ysgol amgen pe bai Ysgol Gymraeg Mornant cau.** **Mae'r llinell amser statudol yn cydymffurfio â'r cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r llinell amser yn caniatáu digon o amser i rieni / gofalwyr a disgyblion ddewis ysgol arall a chaniatáu trosglwyddo pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau.**

Effaith ar Rieni / Gofalwyr

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Pryder am setlo i mewn i gymuned ysgol newydd. • Byddai Rhieni/Gwarcheidwaid yn ei chael yn fwy anodd i ddod yn rhan o gymuned yr ysgol yn gyffredinol oherwydd y pellter o'r cartref i'r ysgol. • Mae'r effaith ar y rhieni/gwarcheidwaid wedi cael ei anwybyddu.	**Mae adolygu dyfodol unrhyw ysgol yn ddadleuol ac yn emosiynol. Mae gan ddisgyblion, rhieni a gofalwyr ac athrawon y gorffennol a'r presennol gysylltiadau cryf ag ysgolion lleol a gyda hanes eu bywydau eu hunain. Mae gan y Cyngor yr her o gydbwyso sensitifrwydd y teimlad**

• Mae'r ysgol mewn ardal ddifreintiedig sy'n gwneud yr effaith yn fwy mewn sawl ffordd - prynu gwisg newydd, costau cludiant. Sylwadau disgyblion: • Bydd yn rhaid i rieni dalu mwy o arian ar gyfer ysgol newydd. • Bydd yn rhaid i rieni symud. • Bydd arian yn cael ei wastraffu.	**cymunedol ar y naill law, â darparu cynnig addysg o ansawdd uchel y gellir ei gynnal a'i fforddio. Ni all y Cyngor osgoi gwneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol sydd er lles pennaf disgyblion a myfyrwyr.** **Mae cyfnewidfa gwisg ysgol ar gael ar gyfer disgyblion Sir y Fflint. Nod y Gyfnewidfa Gwisg Ysgol yw annog pobl Sir y Fflint i ailgylchu a chyfrannu eitemau gwisg ysgol diangen neu heb eu defnyddio yn hytrach na'u rhoi yn y bin. Mae'r gwisgoedd ysgol a roddwyd ar gael ar werth yn Nhŷ Nightingale, siopau hosbis ledled Sir y Fflint am bris sylweddol is na phrisiau'r stryd fawr.** **Mae hefyd yn weddol nodweddiadol y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion angen gwisg newydd wrth iddynt fynd i flwyddyn academaidd newydd, felly gall fod gofyniad i brynu gwisg ysgol newydd dim ots i ba ysgol y bydd y disgybl yn mynd.**

Ysgolion eraill

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Os nad oes lle mewn grwpiau blwyddyn penodol nid oes sicrwydd y bydd pob un o fy mhlant yn cael lle yn yr un ysgol. • Yn draddodiadol, roedd yr ysgolion eraill yn denu o ysgolion nad ydynt yn wledig ac ardaloedd adeiledig, ac mae hyn yn hollol wahanol i ardal Mornant - a byddai'n newid y deinamig dysgu yn yr ardal yn llwyr. • Rwy'n deall bod rhieni Ysgol y Llys yn ymuno â'i gilydd i geisio atal ein plant rhag mynychu eu hysgol. • Mae'n debyg bod aelod o staff yn Ysgol y Llys wedi siarad yn agored â rhiant yn cwyno bod ein plant yn cael eu 'dympio' ar eu hysgol.	**Mae'r ddogfen ymgynghori wedi nodi'r ysgolion eraill sy'n o leiaf cynnal y safonau presennol o ddarpariaeth addysg yn yr ardal.** **Mae Estyn wedi darparu ymateb yn yr ymgynghoriad. Barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal y safonau presennol o ddarpariaeth addysg yn yr ardal o leiaf. Ar y cyfan, mae canlyniadau disgyblion yn y ddwy ysgol arall yn dda ar hyn o bryd, gyda phob ysgol wedi'u barnu fel rhai sydd â'r gallu angenrheidiol i wella ymhellach. Mae presenoldeb disgyblion ym mhob un o'r ysgolion hyn yn dda.** **Mae'r Cyngor wedi dangos yn ei ddogfennau ymgynghori bod digon o gapasiti yn y rhwydwaith ysgolion lleol i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Gymraeg Mornant pe bai'n cau, ac mae Estyn yn cefnogi'r farn hon.** **Bydd derbyniadau i ysgolion eraill, pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, yn cael eu gweinyddu yn unol â pholisi derbyniadau y Cyngor perthnasol. Mae polisïau derbyniadau Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Sir Ddinbych yn dilyn yr un egwyddorion. Bydd y Cyngor yn cynnal cylch derbyn i gefnogi rhieni gyda throsglwyddo i ysgolion eraill pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau.** **Hoffai Pennaeth Ysgol y Llys gofnodi nad oes unrhyw un a gyflogir gan Ysgol y Llys wedi awgrymu bod yr ysgol yn llawn na bod disgyblion Ysgol Gymraeg Mornant mewn**

	perygl o beidio cael croeso pe bai Ysgol Gymraeg Mornant yn cau.

Effaith y cynigion ar Staff Addysgu

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Rhaid trin staff ysgol yn ofalus iawn a gyda chydymdeimlad. • Byddai staff yn colli eu swyddi. Sylwadau disgyblion: • Bydd y staff heb swydd. • Mae'r athrawon wedi bod yma ers amser hir. Cwestiynau'r disgyblion: • Beth fydd yn digwydd i'r Athrawon?	**Mae'r ymatebion gan ymgyngoreion am Ysgol Gymraeg Mornant wedi'u nodi.** **Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio gydag aelodau presennol o staff yn Ysgol Gymraeg Mornant, gan gynnwys athrawon a staff cefnogi, pe baent yn dymuno ceisio cyfleoedd adleoli neu ymddeoliad.**

Y Broses Ymgynghori

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi methu deall yr hyn sy'n ofynnol. • Nid oes unrhyw un o'r ysgolion Saesneg cyfagos yn cael eu hadolygu. • Mae'r penderfyniad yn teimlo fel ei fod eisoes wedi cael ei wneud a bod y Cyngor yn dilyn proses. • Mae'r broses wedi atal pobl rhag cofrestru eu plentyn / plant. • Mae profiad y gorffennol wedi dangos mai yn anaml y mae ymgynghoriad yn newid unrhyw beth. • Roedd y cyfarfod ymgynghori ar 7 Rhagfyr wedi'i sgriptio i raddau helaeth.	**Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Cyngor. Mae'r ddogfen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddogfen fyw y gellir eu datblygu pe bai unrhyw faterion perthnasol yn codi.** **Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.** **Ni all y Cyngor benderfynu ymlaen llaw ar gau ysgolion Statudol.** **Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ymgynghori statudol o gwmpas y newid mewn trefniadaeth ysgolion yn achosi rhywfaint o ansicrwydd o fewn cymuned yr ysgol leol.**

Sylwadau Cadarnhaol

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol

• Mae ysgolion o'r maint a safonau priodol ym Mhrestatyn a Threffynnon.	**Mae’r ymatebion gan ymgyngoreion am Ysgol Gymraeg Mornant wedi’u nodi.**
Sylwadau disgyblion: • Byddwn yn hapus i wneud ffrindiau newydd. • Teimladau cymysg. • Byddwn yn hapus oherwydd bydd mwy o blant yn yr ysgol hon. • Rwy'n credu ei fod rheswm digon teg. • Yr wyf yn hapus. • Rwy'n credu y byddai'n beth da. • Mae'n syniad da os nad oes digon o blant. • Mae'n eithaf da ac eithaf drwg.	

Datblygiad Tai

Sylwadau’r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn awgrymu bod datblygiadau tai ar y gweill.	**Mae'r Cyngor wedi ystyried yn llawn capasiti ysgolion yn yr ardal, ynghyd â’r datblygiad tai posibl yn ei ddogfen ymgynghori.** **Mae data ynglŷn â nifer y disgyblion posibl y gellid ei gynhyrchu o ddatblygiadau tai newydd yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla cynnyrch tai. Mae'r fformiwla enillion tai yn deillio o waith ymchwil yn seiliedig ar ddata cyfrifiad cenedlaethol gan awdurdod partner. Roedd hyn yn berthnasol i bob cais cynllunio datblygiad tai cyfredol a gymeradwywyd gan yr awdurdod cynllunio.** **Mae'r ffigurau cynnyrch tai a gynhyrchwyd yn ffigwr uchaf ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth dewis rhieni a/neu symudiad disgyblion h.y. disgyblion sy'n symud i mewn i gartrefi newydd ond sydd eisoes yn y system addysg leol.** **Bydd cyflymder datblygiadau tai yn cael ei gyfyngu gan gynlluniau’r perchenogion/datblygwyr safle, y farchnad dai, hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill sy'n anrhagweladwy.** **Mae'r Cyngor yn fodlon os bydd Ysgol Gymraeg Mornant yn cau, bod gan y rhwydwaith ysgol leol y gallu i gynnal effaith bosibl angenrheidiol datblygiadau tai presennol a'r dyfodol.**

Sylwadau / Cwestiynau eraill

Sylwadau'r Ymgynghorai	Ymateb yr Awdurdod Lleol
• Beth fydd yn digwydd i safle'r ysgol? Sylwadau disgyblion • Beth fydd yn digwydd i'r adeilad?	**Nid oes gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer y safle yn Ysgol Gymraeg Mornant, ac ni fydd yn ystyried dyfodol y safle hyd nes y penderfynir ar ddyfodol yr ysgol.** **Os caiff y cynnig ei weithredu byddai Ysgol Gymraeg Mornant (adeilad a'r safle) yn cael ei ddatgan yn ddiangen ar gyfer addysg, ac yn cael ei drosglwyddo i'r Tîm Asedau Eiddo, Cyngor Sir y Fflint.**
• Mae safonau arweinyddiaeth yn annigonol ac mae'n anodd newid hyn mewn ysgol fach	
Sylwadau disgyblion: • Tristwch oherwydd nad oes gan yr ysgol lawer o arian.	
Sylwadau disgyblion: A oes ysgol arall yn Picton?	**Nid oes ysgol arall yn Picton.**

ATODIAD F

ATODIAD F

Crynodeb o ymatebion i Ffurflenni Ymateb Safonol

Cwestiwn 1 Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gau Ysgol Gymraeg Mornant, Picton erbyn 31 Awst 2016?

	Cyfanswm	Canran
Ydw	**1**	**0.57%**
Nac ydw	**171**	**198.23%**
Heb ateb	**2**	**0.57%**
	174	

Cwestiwn 2 Dywedwch wrthym pa fath o ymatebwr ydych chi:

Math	Cyfanswm	Canran
Disgybl	**0**	**0**
Rhiant / Gofalwr	**25**	**14.37%**
Llywodraethwr	**3**	**1.72%**
Athro/Athrawes	**0**	**0**
Staff Cymorth	**2**	**1.15%**
Preswylydd Lleol	**86**	**49.43%**
Arall	**82**	**47.13%**
	198	

